# Prif Gwnstabl Dyfed-Powys

## *Datganiad Cyfrifon 2017/18*

(Endid Sengl)

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad Naratif | 3 |
| | Datganiad o Gyfrifoldebau | 19 |
| | Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd | 20 |
| | Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru I Brif Gwnstabl Dyfed-Powys | 43 |
| | Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | 46 |
| | Mantolen | 48 |
| | Cronfa Bensiwn yr Heddlu | 49 |
| | | |
| | Nodiadau i'r Cyfrifon: | 50 |
| 1 | Polisiau cyfrifyddu | 50 |
| 2 | Addasiadau Cyfnod Blaenorol | 53 |
| 3 | Safonau Cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu | 56 |
| 4 | Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu | 56 |
| 5 | Rhagybiaethau o waned ynglyn a ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif yn y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif | 57 |
| 6 | Eitemau perthnasol o incwm o gwariant | 57 |
| 7 | Digwyddiadau ar ol dyddiad y fantolen | 58 |
| 8 | Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi | 58 |
| 9 | Offerynnau Ariannol | 58 |
| 10 | Rhestrau eiddo | 61 |
| 11 | Dyledwyr Byrdymor | 61 |
| 12 | Credydwyr byrdymor | 61 |
| 13 | Gwasanaethau asiantaeth | 61 |
| 14 | Trefniadau Cydweithredol | 62 |
| 15 | Cydnabyddiaeth swyddogion | 65 |
| 16 | Costau archwilio allanol | 69 |
| 17 | Partion cysylltiedig | 69 |
| 18 | Prydlesau | 71 |
| 19 | Buddiannau terfynu | 71 |
| 20 | Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | 72 |
| 21 | Rhwymedigaethau Digwyddiadol | 77 |
| 22 | Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol | 78 |
| | | |
| | Rhestr Termau | 79 |

## Adroddiad Naratif

### 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Adroddiad Naratif hwn yn anelu at ddarparu gwybodaeth am Brif Gwnstabl Dyfed-Powys fel endid cyfreithiol. Cafodd pob Prif Gwnstabl yng Nghymru a Lloegr ei sefydlu'n endid cyfreithiol neu'n 'gorfforaeth undyn' yn ei rinwedd ei hun ym mis Tachwedd 2012 o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yw Mark Collins.

1.2 Bydd yr Adroddiad yn amlinellu'r prif amcanion a strategaethau, a'r prif risgiau y mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Bydd yn nodi'r ffordd y mae'r Prif Gwnstabl wedi defnyddio adnoddau er mwyn cyflawni canlyniadau dymunol yn unol â'r amcanion a'r strategaethau hyn.

1.3 Mae'n anelu at ddarparu dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad; ariannol a gweithredol, a all gael ei ddefnyddio i ddarparu cyd-destun a fydd yn galluogi'r sawl sy'n darllen y wybodaeth ariannol yn y Datganiadau Ariannol hyn i'w deall yn well.

1.4 Bydd yr Adroddiad Naratif yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Trosolwg o'r Sefydliad ac Amgylchedd Allanol
- Perfformiad Llywodraethu a Gweithredol
- Model Sefydliadol
- Perfformiad Ariannol
- Risgiau, cyfleoedd a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig
- Sail gwaith paratoi a chyflwyno


### 2.0 Trosolwg o'r Sefydliad a'r Amgylchedd Allanol

2.1 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymestyn dros yr ardal fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn darparu gwasanaethau plismona i ardal sy'n cwmpasu pedair Sir - Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae'n ardal helaeth o'r Canolbarth a'r Gorllewin, sy'n ymestyn dros filiwn hectar o dir amaethyddol yn bennaf, ac sy'n cynnwys rhanbarthau mynyddig mawr a llawer o gymunedau gwledig anghysbell. Mae hefyd yn cynnwys dros 350 milltir o arfordir, ac yn ymestyn o Dyddewi yn y de-orllewin i Grucywel yn y de-ddwyrain, hyd at y Trallwng a Machynlleth yn y gogledd. Yn ogystal â hyn, mae dau borthladd môr pwysig a gosodiadau ynni mawr yn Aberdaugleddau, sy'n cynnig heriau pellach o ran lleihau llwybrau troseddol posibl. Mae'r cynnydd yn y boblogaeth mewn cyrchfannau i ymwelwyr yn dod â'i oblygiadau ei hun o ran troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona ffyrdd.




2.2 Mae'r ardal yn gartref i fwy na 515,000 o bobl, sy'n cynyddu'n sylweddol gyda thwristiaid bob blwyddyn. Mae bron hanner y trigolion yn 45 oed neu drosodd, gyda 22% o'r boblogaeth dros 65 oed. Mae 32% o'n cymunedau yn medru'r Gymraeg; 43.9% yn Sir Gaerfyrddin, 47.4% yng Ngheredigion, 19.3% yn Sir Benfro ac 18.6% ym Mhowys.

2.3 Mae plismona modern yn gymhleth ac mae ein gwaith yn datblygu'n gyflym er mwyn ymateb i risgiau newydd, bygythiadau a newidiadau mewn technoleg, sydd i gyd yn gofyn am ffyrdd newydd o weithio. Gofynnir i swyddogion a staff yr heddlu ddelio ag ystod eang o faterion pwysig sy'n effeithio ar y cyhoedd.




2.4 Nid yw plismona yn wasanaeth sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ond mae cryn dipyn o'r gwaith a wneir ledled y pedair Sir yn cael ei wneud mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Tân, Byrddau Iechyd Lleol a llawer o bartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector. Hefyd, caiff nifer o wasanaethau pwysig, fel Ymateb Arfog ac ymateb i'r bygythiad o Droseddau Cyfundrefnol a therfysgaeth, eu darparu ar y cyd â Heddluoedd eraill.

2.5 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhan bwysig o wasanaeth plismona'r DU ac mae ein staff wedi helpu gyda nifer o ddigwyddiadau plismona proffil uchel yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- plismona Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr yng Nghaerdydd,

- darparu cymorth yn dilyn ymosodiadau bomio Arena Manceinion a Parsons Green a chefnogi lefelau uwch ychwanegol o batrolau arfog mewn ymateb i gynyddu'r bygythiad o Derfysgaeth i Gritigol yn dilyn y digwyddiadau hyn
- y digwyddiad gwrthderfysgaeth yng Nghaersallog.
- y drychineb naturiol ar Ynysoedd Prydeinig y Wyryf.

2.6 Yn fwy lleol, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymdrin â nifer o ymgyrchoedd a digwyddiadau mawr, wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio, gan gynnwys:

- y Tân difrifol yn Llangamarch lle bu angen cael cymorth arbenigol gan Heddluoedd eraill,
- "Ymgyrch Ulysses" a arweiniodd at ddedfrydu 28 o ddiffynyddion i fwy na 193 o flynyddoedd yn y carchar rhyngddynt am droseddau'n ymwneud â chyflenwi a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A,
- mae ein swyddogion wedi gorfod delio â nifer o ddigwyddiadau trasig eraill, gan gynnwys marwolaeth drasig plentyn 2 oed mewn damwain ffordd a marwolaeth drasig bachgen ifanc a aeth ar goll yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol;
- gwasanaeth hebrwng ar gyfer ffermydd gwynt.

2.7 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cael arolygiadau rheolaidd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn ymateb i arolygiadau yn ystod y flwyddyn – gydag elfennau effeithiolrwydd a chyfreithlondeb proses arolygu PEEL yn cael eu graddio'n "dda" am y tro cyntaf erioed.

**3.0 Llywodraethu a Pherfformiad Gweithredol**

3.1 Mae trefniadau Llywodraethu'r Prif Gwnstabl yn gymhleth ac yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn, sy'n manylu ar y trefniadau sydd ar waith i gyflawni gwaith craffu ac atebolrwydd cadarn gan y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

3.2 Mae gan y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Diogelir annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl mewn deddfwriaeth. Mae ganddo gyfrifoldeb statudol am reolaeth, cyfeiriad a darpariaeth gwasanaethau plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol o dan y gyfraith am arfer pwerau'r heddlu ac i'r Comisiynydd am ddarparu gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol a rheoli adnoddau a gwariant Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal ei Swydd o dan y Goron ac mae'n gyfrifol am gadw Heddwch y Frenhines.

3.3 Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb statudol am sicrhau bod yr heddlu yn effeithlon ac yn effeithiol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni ei swyddogaethau. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am bennu cyllideb flynyddol yr heddlu (gan gynnwys y praesept) a sicrhau y rhoddir cyfrif am arian cyhoeddus a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

3.4 Y Comisiynydd sydd hefyd yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau strategol Heddlu Dyfed-Powys drwy lunio Cynllun yr Heddlu a Throseddu, sicrhau bod materion busnes yn cael eu cyflawni yn unol â'r gyfraith a bod safonau priodol yn cael eu

cyrraedd a'u cynnal. Caiff deiliad y swydd ei ethol gan y cyhoedd ac, felly, mae'n cynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona.

3.5 Mae Cynllun yr Heddlu a Throseddu yn ddogfen bwysig sy'n nodi pedair blaenoriaeth a phum egwyddor gyflawni allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sef:

| Blaenoriaethau | Egwyddorion Cyflawni |
|---|---|
| Cadw Cymunedau'n Ddiogel | Darparu Gwerth am Arian |
| Diogelu'r Rhai Agored i Niwed | Ymgysylltu â'r Cyhoedd |
| Amddiffyn ein cymunedau | Gweithio gyda'n gilydd |
| Cysylltu gyda chymunedau | Cefnogi Dioddefwyr |
| | Cydraddoldeb a Thegwch |


3.6 Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am helpu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu. Mae ei drefniadau cyflawni gweithredol, ei fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Adroddir ar hynt y cynllun bob chwarter yng nghyfarfodydd y Bwrdd Atebolrwydd Plismona; cyfarfod cyhoeddus yw hwn lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn y Prif Gwnstabl a'i uwch dîm i gyfrif. Mae'r Agenda ddiweddaraf sy'n cynnwys yr Adroddiad diweddaraf ar berfformiad ar gael drwy ddilyn y ddolen isod:

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd/bwrdd-atebolrwydd-yr-heddlu/

3.7 Gellir gweld bod nifer o fetrigau maint ac allbwn yn cael eu monitro fel rhan o drefniadau sicrwydd a llywodraethu. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi dangosyddion o gynnydd a pherfformiad yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. At hynny, mae ffocws allweddol ar welliant. Mae pob agwedd ar berfformiad yn cael ei monitro ac mae'n destun craffu drwy'r Byrddau priodol o fewn y strwythur llywodraethu. Ceir crynodeb o'r wybodaeth weithredol allweddol isod:

a. **<u>Nifer y Troseddau</u>**

Mae'r siartiau canlynol yn dangos lefelau misol cyfanswm troseddau cofnodedig yn Nyfed-Powys:



Mae'r data yn awgrymu dros amser;

- mae nifer y troseddau yn cynyddu'n araf
- mae'r cynnydd yn dilyn y duedd genedlaethol i raddau helaeth.

Mae'n bosibl bod nifer o ffactorau, megis ymdrech o hyd i gofnodi troseddau'n gywir, cynnydd yn y boblogaeth, adnabod mathau newydd o droseddau, a newidiadau yn y sylfaen cofnodi troseddau genedlaethol hefyd yn cyfrannu at y cynnydd hwn.

Y tri phrif gategori o drosedd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu cofnodi ac ymdrin â hwy yw:


- Trais yn erbyn Unigolyn (35%)
- Dwyn (20%),
- Llosgi bwriadol a difrod troseddol (16%)

b. **<u>Canlyniadau Troseddau</u>**

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018, ar gyfartaledd, pennwyd canlyniad (terfynu) 59% o droseddau o fewn 30 diwrnod i roi gwybod am y drosedd. Mae nifer y troseddau y pennir canlyniad iddynt o fewn 30 diwrnod yn dibynnu'n fawr ar y math o drosedd, a'i natur. Y tebyg yw y bydd yn cymryd mwy o amser i bennu canlyniad ar gyfer troseddau mwy cymhleth, megis troseddau rhyw a lladrad (38% a 49%, yn y drefn honno), na throseddau a ystyrir yn llai cymhleth, megis difrod troseddol a throseddau sy'n ymwneud â chyffuriau (72% a 73% yn y drefn honno).

c. **<u>Boddhad dioddefwyr</u>**

Cynhaliwyd 857 o gyfweliadau dros y ffôn yn 2017/18 er mwyn nodi i ba raddau roedd dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fodlon ar y




gwasanaethau plismona a ddarparwyd. Mae'r graff isod yn canolbwyntio ar bum agwedd ar daith ein dioddefwyr.

Ymddengys bod cyfraddau boddhad is o ran cael y wybodaeth ddiweddaraf yn dylanwadu ar gyfradd boddhad profiad cyfan unigolyn. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i roi mesurau ar waith i ymateb i'r adborth hwn, a thrwy hynny wella profiad dioddefwyr.

d. **<u>Galwadau 999</u>**

Yn 2017/18:

- Atebwyd 99.6% o'r holl alwadau '999' (derbyniwyd 35,323) o fewn y targed cenedlaethol o 10 eiliad.
- Ar gyfartaledd, atebwyd galwadau '999' o fewn 5 eiliad.
- Oherwydd y galw cynyddol, nodir bod galwadau'n cael eu hateb ychydig yn arafach ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae terfynau amser o fewn y targed amser a bennwyd.

e. **<u>Galwadau nad ydynt yn rhai brys (101)</u>**

Yn 2017/18:

- Atebwyd 95.5% o'r holl alwadau '101' (derbyniwyd 262,521) o fewn y targed cenedlaethol o 45 eiliad
- Atebwyd galwadau '101' o fewn 19 eiliad ar gyfartaledd.

- Oherwydd y galw cynyddol, nodir bod galwadau'n cael eu hateb ychydig yn arafach ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae terfynau amser o fewn y targed amser a bennwyd.

f. **<u>Amseroedd ymateb I Alwadau â Blaenoriaeth am Wasanaeth</u>**
Rydym yn disgwyl i'r heddlu gyrraedd 90% o alwadau am wasanaeth ar unwaith ac â blaenoriaeth o fewn 20 munud. Mae pob rhanbarth ac eithrio Ceredigion yn cyflawni hyn fel arfer. Gwelwyd dirywiad o ran cyflawni'r targed hwn yn Sir Ceredigion yn ystod y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r dirywiad hwn i'w ddisgwyl i ryw raddau o ystyried ei daearyddiaeth heriol ac eang. Parheir i adolygu'r mater hwn.

3.8 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi mynd gryn dipyn o'r ffordd i gyflawni llawer o'r egwyddorion cyflawni sydd wedi'u hategu gan Gynllun yr Heddlu a Throseddu. Heddlu Dyfed-Powys sydd â'r lefel isaf o droseddau cofnodedig ac erys ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn uchel. Caiff y cynnydd cadarnhaol hwn ei adlewyrchu yn yr arolygiad mwyaf diweddar gan ACEM ond cydnabyddir bod tirwedd plismona yn newid o hyd, a bod llawer o waith i'w wneud o hyd.

## 4.0 <u>Y Model Sefydliadol</u>

4.1 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi'i drefnu ar sail ddaearyddol a swyddogaethol. Cefnogir y Prif Gwnstabl gan Dîm o Uwch Swyddogion sy'n cynnwys y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Yn ystod y flwyddyn mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ailstrwythuro, gyda'r tair rôl Cyfarwyddwr flaenorol yn cael eu troi'n un rôl Cyfarwyddwr Cyllid, ac mae cyfrifoldebau'r cyn-Gyfarwyddwr Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth a'r Cyfarwyddwr Adnoddau wedi cael eu hailddosbarthu ymhlith y tair swydd sy'n weddill. Dangosir prif gyfrifoldebau'r tair rôl sy'n cefnogi'r Prif Gwnstabl yn y Tabl isod:

| Dirprwy Brif Gwnstabl | Prif Gwnstabl Cynorthwyol | Cyfarwyddwr Cyllid |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Pobl | Plismona Lleol | Cyllid Corfforaethol |
| Adran Gyfreithiol | Ymchwiliadau | Fflyd |
| Rheoli Gwybodaeth | Ymateb Arbenigol | Caffael |
| Cydweithredu ac Effeithlonrwydd | Canolfan Gyswllt | Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg |
| Cyfathrebu Corfforaethol | Cymorth Gwyddonol | Uned Cymorth Busnes |
| Ymddeol oherwydd Salwch | Cyfiawnder Troseddol | |
| Ymgyrchoedd Mawr | Partneriaethau | |
| Iechyd a Diogelwch | | |
| Safonau Proffesiynol | | |

4.2 Roedd gan Heddlu Dyfed-Powys 1,187 o swyddogion yr heddlu, 148 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a 650 o staff yr heddlu, wedi'u cyllidebu i gyd.

**Crynodeb o Sefyllfaoedd Wedi'u Cyllidebu – 2017/18**

| | Swyddogion Heddlu | SCCH | Staff Heddlu |
|---|---|---|---|
| | Cyfwerth â Llawn Amser | Cyfwerth â Llawn Amser | Cyfwerth â Llawn Amser |
| Plismona Lleol | 596 | 148 | 9 |
| Ymchwiliadau | 302 | 0 | 149 |
| Cymorth Gweithredol (Gan gynnwys Trin Galwadau) | 179 | 0 | 160 |
| Cyflawnder Troseddol | 3 | 0 | 44 |
| Cefnogaeth Wyddonol | 0 | 0 | 21 |
| Safonau Proffesiynol | 10 | 0 | 11 |
| Penawdau Eraill, Gan Gynnwys Cymorth Busnes | 24 | 0 | 234 |
| Meysydd Wedi'u Hunan-ariannu a'u Secondio | 73 | 0 | 23 |
| **Cyfanswm** | **1187** | **148** | **650** |

4.3 Mae ymgyrchoedd recriwtio wedi cael eu cynllunio a'u rheoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau'r lefel orau bosibl o adnoddau, argaeledd sgiliau arbenigol a dosbarthu staff yn gymesur ar sail ddaearyddol. Bu angen recriwtio trosglwyddeion a llenwi nifer o swyddi staff yr heddlu arbenigol (e.e. mewn perthynas â seiberdroseddau) yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i newidiadau mewn galw.

## 5.0 <u>Perfformiad Ariannol</u>

5.1 Mae'r holl incwm sy'n cael ei dderbyn a'i gasglu i blismona ardal heddlu Dyfed-Powys yn mynd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Felly, mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y Prif Gwnstabl yn canolbwyntio ar wariant yn unig ac mae'n dangos i'r Prif Gwnstabl wario £132 miliwn ar ddarparu gwasanaethau plismona i gyhoedd Heddlu Dyfed-Powys yn 2017/18. Mae'r swm hwn tua £19 miliwn yn fwy na'r ffigur cymaradwy a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. O fewn y cynnydd hwn, gellir priodoli tua £14.3 miliwn i newidiadau mewn costau pensiwn gwasanaeth cyfredol.

5.2 Mae'r Datganiad yn rhannu'r ffigur hwn ymhlith prif elfennau'r gwasanaeth a restrir yn y Tabl uchod. Er enghraifft, gellir gweld mai ar Blismona Lleol y gwariwyd yr elfen fwyaf, a oedd yn cyfrif am £64.0 miliwn o'r cyfanswm yn 2017/18.

5.3 Paratowyd y Datganiad hwn ar sail arfer cyfrifyddu priodol a gofynion y Cod ac mae hwn ychydig yn wahanol i'r gyllideb y mae'r Prif Gwnstabl yn cael ei ddwyn i gyfrif amdani o ddydd i ddydd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n cynnwys elfennau o incwm ac nad yw'n cynnwys rhai elfennau megis dibrisiant a symudiadau ar rwymedigaethau pensiwn nad oes angen eu hariannu'n llawn yn ystod y flwyddyn o dan statud.

5.4 Y swm mwyaf ar Fantolen y Prif Gwnstabl yw'r rhwymedigaeth hirdymor o £1,182 miliwn sy'n bodoli mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol i swyddogion a staff yr heddlu. Dyna'r swm y byddai angen i'r Prif Gwnstabl ei

neilltuo ar ddyddiad y fantolen ar gyfer taliadau pensiynau'r holl swyddogion a staff presennol ac ymddeoledig yn y dyfodol.

5.5 Cyfrifwyd y ffigur hwn yn annibynnol ar sail actiwaraidd ac mae'n ystyried lefelau cyflog, chwyddiant, cyfraddau marwolaethau ac ati yn y dyfodol. Mae wedi gostwng £130 miliwn yn ystod y flwyddyn yn bennaf oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol a demograffig.

5.6 Mae'r Fantolen hefyd yn dangos gwerth y rhestr eiddo o lifrau a rhestrau eiddo eraill a ddelir gan y Prif Gwnstabl (£0.459 miliwn) a symiau sy'n ddyledus i'r Prif Gwnstabl ar ddiwedd y flwyddyn (£0.7 miliwn - dyledwyr) neu sy'n daladwy ganddo (£6.9 miliwn - credydwyr). Dangosir dadansoddiad llawnach o'r symiau hyn yn y nodiadau i'r cyfrifon.

*Perfformiad yn 2017/18 yn erbyn cyllideb refeniw'r Prif Gwnstabl*

5.7 Mae'r gyllideb net y mae'r Prif Gwnstabl yn cael ei ddwyn i gyfrif amdani o ddydd i ddydd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn wahanol i'r swm y mae'n rhaid ei nodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o dan arfer priodol.

5.8 Pennwyd cyllideb net o £93.460 miliwn gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn 2017/18 a oedd yn ymgorffori cynnydd yn y Dreth Gyngor o 6.9% ym Mand D a oedd yn dibynnu ar ddefnyddio £1.991 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn i gefnogi gwariant presennol.

5.9 Roedd hyn hefyd yn ymgorffori dyfarniad cyflog tybiedig o 1% a chynnydd tybiedig o 1% mewn chwyddiant cyffredinol ar gostau nad ydynt yn ymwneud â chyflog. Bu'r dybiaeth hon yn heriol wrth i'r terfyn cyflog o 1% ddod i ben yn ystod y flwyddyn, ynghyd â lefel chwyddiant a gyrhaeddodd dros 3%, yn rhannol oherwydd y bleidlais annisgwyl i adael yr Undeb Ewropeaidd.

5.10 Roedd lefel cyllideb y Prif Gwnstabl hefyd yn adlewyrchu trosglwyddo Cyllideb Ystadau o £3.170 miliwn, am fod cyfrifoldeb am y swyddogaeth hon wedi cael ei drosglwyddo o Heddlu Dyfed-Powys i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

5.11 O fewn y lefel gwariant sylfaenol hon roedd yr Heddlu eisoes wedi nodi gostyngiadau o £1.2 miliwn mewn costau; y bwriadwyd cyflawni tua hanner ohonynt yn 2017/18 yn erbyn cyllidebau staffio drwy foderneiddio strwythurau'r gweithlu a lleihau swyddogaethau goruchwylio; gyda'r gweddill yn cael ei gyflawni drwy ostyngiadau sylweddol mewn gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau a gyflawnwyd drwy gaffael a mentrau lleihau costau eraill.

5.12 Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2017/18 i'r Prif Gwnstabl ac yn ei chymharu â'r gyllideb wreiddiol. Dangosir cyllideb ddiwygiedig hefyd yn y tabl sy'n adlewyrchu cyllidebau a symudiadau ychwanegol a broseswyd yn ystod y flwyddyn. Caiff trosglwyddiadau eu prosesu yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cael ei diweddaru'n amserol. Cafodd y prif newidiadau i'r gyllideb y cyfeirir atynt isod eu hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 18 Rhagfyr 2017, a'u hadlewyrchu yn y cyflwyniadau ar y gyllideb i Banel yr Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2018 mewn perthynas â'r sefyllfa yn 2018/19 o ran cronfeydd wrth gefn.

| Rheolwr Cyllideb | Cyllideb Wreiddiol | Cyllideb Ddiwygiedig | Gwirioneddol | Amrywiant (Negyddol am Arbediad) |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyllidebau wedi'u Rheoli'n Ganolog** | | | | |
| Swyddfa'r Prif Gwnstabl | 1,289 | 1,288 | 1,278 | -10 |
| Cyllidebau Corfforaethol | 2,143 | 2,713 | 1,851 | -862 |
| Gwasanaethau Cenedlaethol / Rhanbarthol / Lleol a Ariennir yn Allanol | 0 | 0 | 10 | +10 |
| Cymdeithasau Staff | 193 | 193 | 218 | +25 |
| **Dirprwy Brif Gwnstabl** | | | | |
| Gwasanaethau Pobl | 2,419 | 2,404 | 2,507 | +103 |
| Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | 2,782 | 2,925 | 3,231 | +306 |
| Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu | 1,245 | 1,845 | 1,709 | -136 |
| Safonau Proffesiynol | 1,066 | 1,066 | 1,193 | +127 |
| **Prif Gwnstabl Cynorthwyol** | | | | |
| Plismona Lleol | 48,166 | 47,876 | 49,086 | +1,210 |
| Ymchwiliadau | 23,622 | 23,599 | 23,481 | -118 |
| Cymorth Gwyddonol | 1,742 | 1,742 | 1,505 | -237 |
| Cyfiawnder Troseddol | 1,186 | 1,185 | 999 | -186 |
| **Cyfarwyddwr Cyllid** | | | | |
| Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | 4,249 | 4,269 | 4,134 | -135 |
| Uned Cymorth Busnes | 1,856 | 1,821 | 1,905 | +84 |
| Costau Fflyd | 928 | 803 | 864 | +61 |
| Cyllid a Chaffael | 574 | 573 | 602 | +29 |
| **Cyfanswm y Gyllideb – Heddlu Dyfed-Powys** | **93,460** | **94,302** | **94,573** | **+271** |

5.13 Gellir gweld i gynnydd net o £842K yn y gyllideb gael ei gymeradwyo yn ystod y flwyddyn ar gyfer y Prif Gwnstabl. Adlewyrchodd hyn benderfyniad y Comisiynydd i:

- ariannu costau ychwanegol Ymgyrch Heath o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Ymgyrch Heath oedd enw gweithredol ymchwiliad i dân difrifol ar Fferm Pointyn, Llangamarch, Powys ar 30 Hydref 2017. Yn sgil y tân trychinebus hwn bu farw tad a phump o blant. Cyflwynwyd proses Adnabod Dioddefwyr Trychineb a oedd yn cynnwys staff o Heddluoedd Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent. Cymerodd chwe wythnos i archwilio'r safle ac adfer y cyrff. Roedd costau'r ymgyrch hon islaw'r trothwy o 1% ar gyfer cymorth mewn perthynas â chyllid canolog. Mae'r heddlu yn dal i ymchwilio i'r hyn a achosodd y tân ac mae cwêst ar droed.
- ariannu'r dyfarniad cyflog o 1% nas cyfunwyd ar gyfer swyddogion a staff o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a ddeilliodd o'r penderfyniad annisgwyl i ddileu'r terfyn cyflog cyhoeddus o 1% yn y sector cyhoeddus gan y Llywodraeth.
- trosglwyddo cyllid o Heddlu Dyfed-Powys er mwyn talu ardrethi ychwanegol a chostau swyddfa yn ystod y flwyddyn

- ariannu mentrau ychwanegol o gronfeydd a glustnodwyd a ddelir.

5.14 Nid oedd y pwysau costau hyn wedi'u cynnwys yng nghyllideb wreiddiol Heddlu Dyfed-Powys ac ni ellid eu fforddio heb gael effaith sylweddol ar recriwtio a pherfformiad. Crynhoir y symudiadau hyn yn y tabl isod:

| Symudiadau Cyllidebol yn ystod y Flwyddyn | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Wreiddiol Heddlu Dyfed-Powys | 93,460 |
| Cyllideb Ddiwygiedig Heddlu Dyfed-Powys | 94,302 |
| **Gwahaniaeth** | +842 |
| Trosglwyddiad Cronfeydd wrth Gefn Ymgyrch Heath | +600 |
| Trosglwyddiad Dyfarniad Cyflog nas Cyfunwyd | +500 |
| Trosglwyddiad Costau Ystadau a Swyddfeydd | -390 |
| Trosglwyddiadau Eraill | 132 |
| **Cyfanswm Trosglwyddiadau** | +842 |

5.15 Yn gyffredinol, gellir gweld bod y Prif Gwnstabl tua £+271K uwchlaw'r gyllideb am y flwyddyn. Rhoddir esboniad byr o'r prif resymau dros yr amrywiannau mwy sylweddol yn y gyllideb ar gyfer 2017/18 isod:

i. *Swyddfa'r Prif Gwnstabl: Fel cyfanswm, sicrhawyd tanwariant o* £-10K yn erbyn cyllideb Swyddfa'r Prif Gwnstabl yn bennaf o ganlyniad i arbedion a sicrhawyd yn erbyn penawdau Staff yr Heddlu yn ymwneud â lleihau nifer y Cyfarwyddwyr.

ii. *Cyllidebau Corfforaethol: Cyflawnwyd arbedion o £-259k yn erbyn taliadau cyfalaf a derbyniwyd incwm ychwanegol o £-435K o ran gwasanaeth Hebrwng ar gyfer Ffermydd Gwynt a phenawdau incwm eraill sydd wedi'u rheoli'n ganolog. Derbyniwyd incwm ychwanegol mewn perthynas â'r Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol a wnaeth leihau gwariant net £-221k yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig a ychwanegwyd at gronfa wrth gefn a glustnodwyd. Aed i £+53K o gostau goramser ychwanegol wrth ddarparu patrolau ychwanegol ar ôl cynyddu'r lefel o fygythiad i'r DU i gritigol yn sgil ymgyrchoedd bomio Manceinion a Llundain.*

iii. *Gwasanaethau Cenedlaethol / Rhanbarthol / Lleol a Ariennir yn Allanol: Cafwyd gorwariant o £+10K yn bennaf yn erbyn Grantiau a gafwyd am swyddogaethau Diogelwch Cenedlaethol yn y Porthladdoedd ac ar safleoedd Seilwaith Cenedlaethol Critigol.*

iv. *Cymdeithas Staff: Cynrychiolydd Ffederasiwn yr Heddlu ychwanegol dros dro o fis Hydref ymlaen o gymharu ag adeg llunio'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfnod trosglwyddo estynedig a roddwyd i'r swyddogion.*

v. *Gwasanaethau Pobl: Gwnaed taliadau ychwanegol o £+103K, yn bennaf mewn perthynas â hyfforddiant ac adleoli trosglwyddeion ychwanegol. Roedd y polisi hwn wedi'i gadarnhau yn gynharach yn y flwyddyn, wedi'i ariannu o dderbyniadau ychwanegol mewn ymgais i ddenu staff ymchwiliol ychwanegol i weithio yn y maes.*

vi. *Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch: Aeth Heddlu Dyfed-Powys i rai costau swyddogion a staff dros dro ychwanegol ac roedd £+240K uwchlaw'r gyllideb o ran costau cyfreithiol am y flwyddyn. Roedd costau yswiriant a phenawdau eraill hefyd ryw £+66K uwchlaw'r gyllideb.*

vii. *<u>Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu</u>: Gwnaeth Heddlu Dyfed-Powys arbed £-254K yn erbyn y cyllidebau ymddeol oherwydd salwch/costau pensiwn. Fodd bynnag, aeth i gostau cydgymorth ychwanegol mewn perthynas ag Ymgyrch Heath, oedd yn gyfanswm o £798K, £-198K yn uwch na'r gyllideb ddiwygiedig a neilltuwyd. Cafodd hyn ei wrthbwyso gan arbediad net o £-104K* yn erbyn ymgyrchoedd mawr canolog eraill ond cynnydd o £+24K yn erbyn costau cyfathrebu corfforaethol.

viii. *<u>Safonau Proffesiynol:</u> Mae'r costau uwch o dan y pennawd hwn yn ymwneud â chostau swyddogion (£+84K) a staff (£+43K) mewn ymateb i'r ôl-groniad fetio ac yn sgil ailstrwythuro goruchwyliol swyddogaethau Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth a weithredwyd yn ystod y flwyddyn.*

ix. *<u>Cyllidebau Gweithredol a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol:</u> Gwariodd Heddlu Dyfed-Powys swm ychwanegol sylweddol yn erbyn goramser / gwyliau banc, sef £+711K yn ystod y flwyddyn yn erbyn y gyllideb o ganlyniad i nifer o ymchwiliadau, digwyddiadau a gofynion gweithredol na ellid eu hosgoi. Cafodd y gwariant ychwanegol hwn ei wrthbwyso gan incwm ychwanegol a gafwyd o gymharu â'r gyllideb ond a adroddwyd o dan Gyllidebau Corfforaethol. Roedd cyllidebau cyflogau £+214K drosodd sy'n adlewyrchu goblygiadau ychwanegol dyfarniad cyflog o 1% nas cyfunwyd. Roedd costau nad ydynt yn gyflogau tua £+10K uwchlaw'r gyllideb. O fewn y penawdau unigol, lliniarwyd gorwariant yn erbyn Plismona Lleol a Chyfiawnder Troseddol drwy wneud arbedion yn erbyn y penawdau Ymchwiliadau, Cyfiawnder Troseddol a Chymorth Gwyddonol a Chyllideb Gorfforaethol.*

x. *<u>Y Gyfarwyddiaeth Gyllid:</u> Mae'r Gyfarwyddiaeth hon yn cwmpasu Adrannau Cyllid Corfforaethol, Fflyd, TGCh, Cymorth Busnes a Chaffael yr Heddlu. Cytunwyd ar gostau staffio ychwanegol o £173k yn ystod y flwyddyn er mwyn bwrw ymlaen â gwaith prosiect TGCh a wrthbwyswyd gan arbedion sylweddol yn erbyn meysydd TGCh nad ydynt yn ymwneud â chyflogau gan adael arbediad net o £-135K. Anfonwyd staff ychwanegol ar ddyletswyddau adferol i'r Uned Cymorth Busnes er mwyn mynd i'r afael ag ôl-groniadau wrth weinyddu trwyddedau arfau tanio. Cyfrannodd hyn at y gorwariant o £+84K yn erbyn y pennawd hwn. Roedd penawdau Fflyd a Chyllid/ Caffael £+61K uwchlaw'r gyllideb (Gwaith Atgyweirio ar ôl Damwaith a Gwasanaethu) a £+2.9K (staff caffael cydweithredol ychwanegol dros dro) yn y drefn honno.*

5.16 Mewn perthynas â gwariant refeniw o ddydd i ddydd, roedd angen trosglwyddo £3.509 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn yn 2017/18 o gymharu â ffigur o £1.991 miliwn yn y gyllideb wreiddiol. Caiff swm o £4.360 miliwn ei drosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn a grantiau a ddelir i ariannu gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn sy'n is na'r bwriad oherwydd llithriant cynlluniau cyfalaf. Rhoddir manylion llawn yn y Tabl isod:

| Gwariant Cyfalaf | Cyllideb Wreiddiol | Cyllideb Ddiwygiedig | Gwirioneddol | Dros/(O dan) | Rheswm dros Orwariant / Tanwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| Tir ac Adeiladau | 5,790 | 1,916 | 1,798 | -118 | Mae rhaglen i adnewyddu Gorsafoedd Heddlu presennol ar waith ac mae'n mynd rhagddi gyda pheth oedi. |
| Cerbydau | 972 | 988 | 1,122 | 134 | Prynu cerbydau newydd yn lle rhai a fu mewn gwrthdrawiadau, nas cynlluniwyd, a gwerthu cerydau ychwanegol. |
| TG a Phrosiectau Strategol Eraill | 2,459 | 2,331 | 1,761 | -570 | Nid wy rhai prosiectau wedi datblygu yn ol y disgwyl e.e. CCTV, diweddaru IP999 (£110k) a phrosiect ESN (£100k). |
| Cyfanswm | 9,221 | 5,235 | 4,681 | [illegible] | |

| Cyllid | Cyllideb Wreiddiol | Cyllideb Ddiwygiedig | Gwirioneddol | Dros/(O dan) | Rheswm dros Orwariant / Tanwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| Derbynebau Cyfalaf | 1,500 | 141 | 237 | 96 | Lefel gwerthu asedau yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. |
| Cyllid Refeniw Uniongyrchol | 300 | 300 | 16 | -284 | Y lleihad angenrheidiol mewn gwariant a derbynebau ychwanegol yn golygu bod angen Cyllid Refeniw Uniongyrchol bach iawn yn 2017/18. |
| Credyd Cyfalaf NPAS | 68 | 68 | 68 | 0 | Defnyddiwyd rhai grantiau nas cynhwyswyd yn y gyllideb wreiddiol. |
| Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn | 7,036 | 4,409 | 3,914 | -495 | Oherwydd oedi mewn rhaglenni cyfalaf, ni fu angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i'r graddau a ragwelwyd pan bennwyd y gyllideb. |
| Grant Cyfalaf a Chyfraniadau | 317 | 317 | 446 | 129 | Defnyddiwyd rhai grantiau nas cynhwyswyd yn y gyllideb wreiddiol. |
| Cyfanswm | 9,221 | 5,235 | 4,681 | [illegible] | |

5.17 Mae sefyllfa derfynol y cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Comisiynydd yn dangos ffigur o £20.480 miliwn a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2018 sy'n cynnwys swm o £12.392 miliwn i gefnogi ymrwymiadau'r gyllideb gyfalaf yn y dyfodol, cronfa gyffredinol wrth gefn o £4.032 miliwn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a swm o £4.056 miliwn sydd ei angen i ariannu cyfraniadau a diffygion refeniw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys balans o £1.480 miliwn a ddelir ar ran y bartneriaeth diogelwch ffordd "Gan Bwyll".

## 6 Risgiau, Cyfleoedd a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig

6.1 Caiff risgiau eu rheoli ar bob lefel yn y sefydliadau drwy'r Strwythur Llywodraethu a defnyddir Chofrestr Risg Gorfforaethol i gofnodi, rheoli a lliniaru'r prif risgiau a allai effeithio ar y broses o gyflawni canlyniadau Cynllun yr Heddlu a Throseddu. Dogfen fyw yw'r Gofrestr Risg, a gaiff ei ddiweddaru o leiaf unwaith yr wythnos. Ymhlith y prif risgiau a nodwyd yn ystod 2017/18 mae;

- Materion Gweithredol, gan gynnwys archwiliadau meddygol a materion cytundebol
- Cofnodi troseddau – Uniondeb Data Troseddau
- Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion
- Iechyd a Diogelwch
- Cadernid ariannol a rheoli ariannol

6.2 Caiff y Gofrestr Risg ei monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y risgiau'n cael eu dyrannu i berchennog sy'n gyfrifol am gymryd camau lliniaru priodol. Ceir

rhagor o fanylion am reoli risg yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gynhwysir fel rhan o'r ddogfen hon.

6.3 O ran y Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig, mae sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl a Heddlu Dyfed-Powys yn y dyfodol yn dibynnu ar benderfyniadau ariannol y Llywodraeth, incwm praesept a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, na chaiff yr un ohonynt eu pennu gan y Prif Gwnstabl.

6.4 Gwelwyd gostyngiadau sylweddol mewn lefelau cyllid gan y Llywodraeth ers 2010 ac mae wedi dynodi y cynhelir Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yr haf nesaf. Mae'r sefyllfa o ran yr Adolygiad o'r Fformiwla Ariannu hefyd yn ansicr. Fodd bynnag, deellir y gall y Swyddfa Gartref fod yn ystyried gwneud newidiadau i'r fformiwla o 2020 ymlaen.

6.5 Dynododd y setliad ariannol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017 fod disgwyl gweld setliad arian gwastad at ei gilydd gan y Llywodraeth ar gyfer 2018/19 a 2019/20.

6.6 Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi gosod lefel praesept o £224.56 (+5% neu gynnydd o £10.69) ar gyfer 2018/19, ochr yn ochr â Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar y cyd, a chytunwyd ar hyn yn unfrydol gan Banel yr Heddlu a Throseddu. Digwyddodd hyn yn dilyn proses graffu drylwyr a thrafodaethau am dybiaethau ariannol a blaenoriaethau buddsoddi a oedd yn cynnwys nifer o seminarau a chyflwyniadau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ei staff, Bwrdd Gweithredol Heddlu Dyfed-Powys, cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru, y Cydbwyllgor Archwilio, Aelodau Panel yr Heddlu a Throseddu a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol yn ardal Dyfed-Powys gan y Prif Gwnstabl a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

6.7 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld gostyngiad termau real o 20% yn y Grant o 2021 ymlaen gydag ansicrwydd ynghylch setliadau a phenderfyniadau fformiwla ariannu ar ôl Brexit yn cael ei adlewyrchu yn hyn. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cynnwys cynnydd tybiedig parhaus o 5% yn y praesept a fyddai'n golygu bod y Dreth Gyngor ym Mand D yn cynyddu o £224.56 yn 2018/19 i £286.60 erbyn diwedd 2023/24. Ar hyn o bryd mae gan Heddlu Dyfed-Powys y lefelau treth gyngor isaf yng Nghymru.

6.8 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnwys cynnydd tybiedig o 2% mewn cyflogau a phwysau chwyddiant o 2019 ymlaen, ac mae wedi modelu pwysau cynnydd a chostau uwch hysbys. Hefyd, mae wedi modelu lleihad yn y cyfraniad blynyddol o gronfeydd wrth gefn o £2.24 miliwn a chynnydd mewn cyfraniadau o ran cyllid cyfalaf a thaliadau o £3.483 miliwn i gefnogi'r Blaenraglen Gyfalaf. Mae gwariant ychwanegol pellach o £2.9 miliwn ar adnoddau sydd eu hangen er mwyn bodloni newidiadau a ragwelir mewn galw yn y dyfodol yn ystod oes y Cynllun hefyd wedi'i gynnwys, yn seiliedig ar gynigion buddsoddi a blaenoriaethau a nodwyd ac a flaenoriaethwyd gan Brif Swyddogion fel rhan o broses cyllideb 2018/19 yn ogystal â'r meysydd buddsoddi â blaenoriaeth hynny sydd wedi'u cynnwys yn Natganiad Rheoli Heddlu Dyfed-Powys.

6.9 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud cryn dipyn o waith yn ystod 2017/18 er mwyn nodi mesurau effeithlonrwydd. Mae ganddo gynllun lleihau costau sy'n anelu at fanteisio ar gydfentrau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol. Hefyd, mae'r cynllun hwn yn tybio y caiff y gweithlu a'r sylfaen costau eu had-drefnu'n sylweddol o ganlyniad i flaenoriaethau, y galw tebygol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a Chynllun Arbedion Cydweithredol sydd wedi galluogi Heddlu Dyfed-

Powys i gyflwyno sefyllfa Ariannol Tymor Canolig gwbl gytbwys ac wedi'i hariannu ar gyfer Refeniw a Chyfalaf.

| SEFYLLFA CYLLIDEB REFENIW | 18-19 | 19-20 | 20-21 | 21-22 | 22-23 | 23-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid Canolog a Lleol** | | | | | | |
| Cyllid Canolog Rhagamcanol (£M) | -49.3 | -49.3 | -49.3 | -57.3 | -45.4 | -43.6 |
| Praesept Lleol (£M) | -49.8 | -52.7 | -55.8 | -59.0 | -62.5 | -66.1 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **-99.1** | **-102.0** | **-105.1** | **-106.3** | **-107.9** | **-109.7** |
| **Gwariant Refeniw** | | | | | | |
| Gwariant Rhagamcanol cyn Arbedion Effeithlonrwydd (£M) | 101.0 | 104.4 | 108.7 | 112.5 | 116.0 | 119.4 |
| Arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd ar gyfer 18-19 (£M) | -1.9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Diffyg Blynyddol Cronnus (£M)** | 0 | 2.4 | 3.7 | 6.2 | 8.1 | 9.7 |
| **Cynllun Lleihau Costau yn y Dyfodol** | | | | | | |
| Caffael a Chostau nad ydynt yn Gyflogau (£M) | | -1.6 | -0.7 | -0.7 | -0.6 | -0.6 |
| Cynllun Cydweithredol (£M) | | -0.4 | -0.5 | -0.5 | -0.4 | -0.2 |
| Cynllun Galw a Chynhyrchiant (£M) | | -0.4 | -0.1 | -1.3 | -0.9 | -0.8 |
| **Lleihad mewn Costau Blynyddol (£M)** | | **-2.4** | **-1.3** | **-2.5** | **-1.9** | **-1.6** |
| **Lleihad Blynyddol Cronnus (£M)** | | **-2.4** | **-3.7** | **-6.2** | **-8.1** | **-9.7** |
| **Diffyg Refeniw Disgwyliedig (£M)** | | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |

6.10 Mae effaith ariannol Ymgyrch Heath a'r dyfarniad cyflog o 1% nas cyfunwyd, ynghyd â'r gorwariant yn erbyn cyllideb Heddlu Dyfed-Powys, gyda'i gilydd wedi costio £1.536 miliwn yn ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2017/18, sydd wedi ailgadarnhau'r angen i gynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel gynaliadwy a bydd Heddlu Dyfed-Powys a'r Comisiynydd yn ailwerthuso'r sefyllfa Tymor Canolig yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 er mwyn sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn ddigonol ac nad ydynt wedi gorymrwymo. Bydd yr ystyriaethau hyn hefyd yn rhoi sylw i ganllawiau diweddar y Swyddfa Gartref ar Gronfeydd wrth Gefn yr Heddlu.

6.11 Ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd Heddlu Dyfed-Powys Ddatganiad Rheoli Heddlu cynhwysfawr i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sy'n nodi'r prif heriau gweithredu a chymorth busnes a wynebir gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae hwn yn ystyried gallu ac adnoddau Heddlu Dyfed-Powys yng nghyd-destun ymdrin â'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Yn gryno, mae'r ddogfen yn nodi heriau sy'n adlewyrchu'r meysydd hynny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Risg i raddau helaeth ond mae hefyd yn tynnu sylw at heriau mewn perthynas â Data, Galw, Ditectifs, Cyffuriau, Digidol a bod yn agored i niwed mewn cyd-destun gweithredol.

6.12 Mae'r Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn wynebu nifer o ymrwymiadau ariannol posibl anhysbys yn y dyfodol y cyfeirir atynt ymhellach yn

y nodyn ar rwymedigaethau digwyddiadol i'r Ddogfen Datganiadau o Gyfrifon hon, gan gynnwys;

- Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu - Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd
- Hawliadau posibl ar gyfer gordalu cyfraniadau pensiwn
- Ymchwiliad i Blismona Cudd
- Hawliadau Lwfans Ar Alw Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig

**7.0 <u>Sail Gwaith Paratoi a Chyflwyno</u>**

7.1 Mae'r Datganiad o Gyfrifon hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Prif Gwnstabl Dyfed-Powys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 fel endid cyfreithiol neu 'gorfforaeth undyn'. Hwn yw'r chweched Datganiad o Gyfrifon y mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys wedi'i baratoi o dan y trefniadau hyn.

7.2 Nodir sefyllfa ariannol Grŵp cyfunol Comisiynydd a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys mewn dogfen Datganiad o Gyfrifon ar wahân wedi'i pharatoi gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

7.3 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol baratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Ystyrir bod y Cod yn nodi arferion priodol.

7.4 <u>Beth sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon?</u>

Mae'r Cyfrifon sy'n dilyn y naratif hwn yn rhoi rhagor o fanylion am sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl ac maent yn cynnwys:-

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol;** mae hwn yn nodi barn yr archwilydd allanol, sef Swyddfa Archwilio Cymru, ynghylch p'un a roddodd cyfrifon y Prif Gwnstabl 'ddarlun gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2017/18;

- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon;** mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a Phrif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl;

- **Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant;** mae'r datganiad craidd hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a gostwng troseddu yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys treuliau o ddydd i ddydd ac incwm cysylltiedig ar sail croniadau, yn ogystal â thrafodion yn mesur gwerth asedau sefydlog a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd a gwerth amcangyfrifedig gwirioneddol buddiannau ymddeol a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn;

- **Mantolen;** mae'r datganiad craidd hwn yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Prif Gwnstabl fel ag yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Fel o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, ni all y Prif Gwnstabl ddal arian parod. Caiff asedau a rhwymedigaethau presennol y Prif Gwnstabl eu mantoli i ddim drwy drosglwyddiadau o fewn y grŵp rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sy'n cael eu dileu o Gyfrifon y Grŵp. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn berchen ar y tir, yr adeiladau ac asedau eraill a ddefnyddir gan yr Heddlu ac felly dangosir y rhain yn y Fantolen a gynhwysir yn y Datganiad o Gyfrifon a baratowyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

- Mae **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** wedi'u cynnwys hefyd sy'n nodi'r Polisïau Cyfrifyddu a ddefnyddir fel sail dros baratoi'r datganiadau ariannol ac yn rhoi'r wybodaeth arall sy'n ofynnol o dan y Cod Ymarfer.

- Mae angen **Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad Llif Arian a Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** fel rhan o'r Cod. Fodd bynnag, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn dal cronfeydd wrth gefn nac arian parod nid oes angen y datganiadau hyn;
- Datganiad sy'n dangos gwariant, incwm, asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Phensiynau'r Heddlu yw **Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu**. Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am weinyddu cynlluniau pensiwn ac am ymgymryd â'r gwaith cynnal priodol ac am ddarparu'r cyfrifon perthnasol.
- Mae **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** wedi'i gynnwys o fewn y Datganiad o Gyfrifon hwn sy'n nodi manylion ynglŷn â sut mae'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu ei faterion. Dogfen statudol yw'r Datganiad, sydd hefyd yn cynnwys adolygiad blynyddol o ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu, ac mae hefyd yn rhoi sicrwydd ar y systemau rheolaeth fewnol y mae'r Prif Gwnstabl yn eu cynnal.

## Datganiad o Gyfrifoldebau

Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny, sef y Prif Swyddog Cyllid;
- rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Cymeradwyaf y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

**Prif Gwnstabl Dyfed-Powys** **Dyddiad**

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodwyd yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Ariannol wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth;
- cydymffurfio â'r Cod i Awdurdodau Lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl ar y dyddiad adrodd ac o'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

**Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl** **Dyddiad**

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2017-18**

**Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

## Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau

Creodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy gorfforaeth undyn o fewn pob ardal yr heddlu: y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (a elwir y Comisiynydd o hyn ymlaen). Mae gan bob unigolyn gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Fodd bynnag, cyfeirir atynt gyda'i gilydd yn y ddogfen hon fel "Gwasanaethau Plismona". Os bydd mater yn ymwneud â Heddlu Dyfed-Powys neu'r Prif Gwnstabl yn unig, nodir hynny'n benodol. Yn yr un modd, cyfeirir yn benodol at unrhyw achos lle bydd materion yn ymwneud â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu'r Comisiynydd yn unig.

Mae'r Prif Gwnstabl yn dal ei Swydd o dan y Goron ac mae'n gyfrifol am gadw Heddwch y Frenhines. Mae ganddo gyfrifoldeb statudol am reolaeth, cyfeiriad a darpariaeth gwasanaethau plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol o dan y gyfraith am arfer pwerau'r heddlu ac i'r Comisiynydd am ddarparu gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol a rheoli adnoddau a gwariant Heddlu Dyfed-Powys. Diogelir annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl mewn deddfwriaeth. Mae Mr Mark Collins wedi cyflawni rôl y Prif Gwnstabl ers i'r Comisiynydd ei benodi, a dechreuodd y swydd ar 18 Rhagfyr 2016.

Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb statudol am sicrhau bod yr heddlu yn effeithlon ac yn effeithiol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni ei swyddogaethau. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am bennu cyllideb flynyddol yr heddlu (gan gynnwys y praesept) a sicrhau y rhoddir cyfrif am arian cyhoeddus a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Y Comisiynydd sydd hefyd yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau strategol Heddlu Dyfed-Powys drwy lunio Cynllun yr Heddlu a Throseddu, sicrhau bod materion busnes yn cael eu cyflawni yn unol â'r gyfraith a bod safonau priodol yn cael eu cyrraedd a'u cynnal. Ceir crynodeb o'r Cynllun yn Atodiad A – Cynllun Cyflenwi ar gyfer yr Heddlu a Throseddu ar Dudalen. Caiff y Comisiynydd ei ethol gan y cyhoedd ac, felly, mae'n cynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona. Cafodd Mr Dafydd Llywelyn ei ethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2016.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau unigol, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd o ran arfer swyddogaethau sy'n cynnwys sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal drwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau ar waith i reoli risg, ynghyd â rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel Corfforaethau Undyn ar wahân lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Rhydd hyn drosolwg o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ac mae'n adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn, gan nodi meysydd i'w gwella a'r camau y mae angen eu cymryd. At hynny, mae'r datganiad yn egluro'r ffordd mae trefniadau llywodraethu'n adlewyrchu egwyddorion canllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sef *Delivering Good Governance: Guidance Notes for Policing Bodies in England and Wales 2016 Edition*.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn wedi cael ei lunio ar y cyd am y tro cyntaf sy'n anelu at helpu i sicrhau tryloywder a dealltwriaeth i'r darllenydd, gan ddangos yn glir lle mae trefniadau yn gyson a lle maent yn amrywio rhwng y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd.

## Trefniadau Llywodraethu

Mae trefniadau llywodraethu Heddlu Dyfed-Powys yn sail i waith craffu ac atebolrwydd da gan y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd. Mae'r strwythurau a'r prosesau sydd ar waith yn ymgorffori egwyddorion llywodraethu da ym mhob penderfyniad ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhaeadru ar draws y sefydliad er mwyn creu diwylliant sy'n sicrhau bod y broses o ddarparu gwasanaethau er budd y cyhoedd.

Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd eisoes wedi cael ei ddatblygu gan y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, sy'n nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau a fydd yn sail i'r ffordd yr aiff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys ati i lywodraethu eu gweithgareddau, ar y cyd ac ar wahân. Mae'r Fframwaith yn galluogi'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd i fonitro'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol ac ystyried p'un a gyflawnwyd amcanion Cynllun yr Heddlu a Throseddu.


Cafodd y fframwaith ei adolygu a'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r strwythurau llywodraethu newydd o fewn Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'n cynnwys y tair dogfen ganlynol:

- Datganiad Llywodraethu Corfforaethol, sy'n darparu eglurder ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu, gyda'i gilydd ac ar wahân, er mwyn hwyluso'r gwaith o wneud busnes yn effeithiol am y rheswm cywir mewn modd amserol i'r cyhoedd;
- Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n nodi egwyddorion craidd llywodraethu da, a amlinellir yn Delivering Good Governance: Guidance Notes for Policing Bodies in England and Wales (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), 2016);
- Cynllun Llywodraethu Corfforaethol, sy'n nodi'r paramedrau y bydd y ddau sefydliad yn gwneud eu busnes ynddynt er mwyn sicrhau y gwneir hynny'n effeithlon a bod penderfyniadau yn agored, yn dryloyw ac nad oes unrhyw oedi diangen.

Cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o'r strwythurau llywodraethu yn ystod haf 2017, gan lansio strwythur diwygiedig ar 3 Medi 2017. Mae'r strwythur newydd hwn yn helpu i sicrhau bod gan Wasanaethau Plismona Dyfed-Powys systemau llywodraethu ac atebolrwydd cryfach a symlach.

Caiff y prif drefniadau ar gyfer Llywodraethu ac Atebolrwydd eu hamlinellu isod gyda'r strwythur llawn wedi'i ddangos yn Atodiad B sy'n tanlinellu'r berthynas rhwng trefniadau llywodraethu Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Crynhoir trosolwg o'r Trefniadau Llywodraethu sydd ar waith ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd isod:

## Amlinelliad o Drefniadau Llywodraethu




Mae dogfen CIPFA, sef Delivering Good Governance Guidance Notes for Policing Bodies in England and Wales (2016 Edition) yn nodi "*Good governance is about how decisions are made, focussing on matters such as understanding and clarity of aims, the integrity, fairness and transparency of decisions made by individuals and team, and the effectiveness of controls and accountability mechanisms…Governance is an organisational culture rather than a set of rules…It is doing what is right and doing it properly*". Mae Gwasanaethau Plismona Dyfed-Powys yn sefydliadau sy'n ceisio gwrando'n ofalus ar y gweithlu ac yn gwneud penderfyniadau sy'n ystyried buddiannau'r cyhoedd bob amser.

Mae'r strwythur llywodraethu diwygiedig yn ceisio gwneud y broses honno yn fwy tryloyw. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu, hyrwyddo a sicrhau cysondeb y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu drwy'r strwythur llywodraethu i gyd.

Nod y strwythur diwygiedig yw grymuso swyddogion a staff islaw rheng y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd i yrru busnes yn ei flaen drwy'r gwahanol Fyrddau a Grwpiau. Caiff cyfarfodydd eu cadeirio gan Brif Swyddogion, y Comisiynydd a'u Huwch Dimau Rheoli ac mae pob un yn annog y sawl sy'n bresennol i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau. Mae'r cysylltiadau rhwng y grwpiau a'r byrddau yn golygu bod modd

cynnal trafodaethau ochrol yn ogystal â chynnig cyfleuster i uwchgyfeirio materion pan fo angen. Nodir paramedrau clir pob Bwrdd / Grŵp yn y priod Gylch Gorchwyl a chynhelir adolygiad o effeithiolrwydd y strwythur yn ystod hydref/gaeaf 2018.

Bydd pob Bwrdd a Grŵp hefyd yn gyfrifol am reoli Risgiau fel y'u nodir yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ac yn mynd ati i weithredu argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, sy'n deillio o arolygiadau, yn rhai thematig ac arferol, ynghyd ag argymhellion a chamau gweithredu yn deillio o archwiliadau allanol a mewnol.

Mae trefniadau sicrwydd Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys y tair llinell o amddiffyn. Y llinell gyntaf o amddiffyn yw cyfrifoldeb unigol, yr ail linell o amddiffyn yw craffu ym maes goruchwylio a rheoli, a'r drydedd linell yw sicrwydd annibynnol drwy graffu ar lefel byrddau llywodraethu, archwiliadau mewnol ac allanol ac arolygiaethau eraill.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r Fframwaith a'i nod yw rheoli risg i lefel resymol a rhagweladwy. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Caiff canfyddiadau'r adolygiad blynyddol o'r system rheolaeth fewnol eu hystyried gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a chânt eu hadolygu'n annibynnol gan y Cydbwyllgor Archwilio.

Cynllunnir gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn sicrhau bod pob Bwrdd yn gyson â'r prif egwyddorion a strategaethau, fel y Cynllun Cyflenwi ar gyfer yr Heddlu a Throseddu, blaenoriaethau allweddol y Prif Gwnstabl a'r Strategaeth Reoli.

## Cyfrannu at Lywodraethu ac Atebolrwydd a'u cefnogi

Cefnogir llywodraethu ac atebolrwydd, a chreffir arnynt, gan nifer o gyrff mewnol ac allanol. Wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, mae eu rôl a'u gweithgarwch yn hanfodol. Rhoddir manylion pob grŵp a chorff isod:

**Grŵp Llywodraethu Corfforaethol**

Mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, a gadeirir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl ac sy'n cynnwys personél allweddol o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Cydbwyllgor Archwilio, am ymgymryd â'r broses o gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol wedi nodi bod y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn addas at y diben a bydd yn goruchwylio'r adolygiad o'r trefniadau yn ystod hydref 2018.

**Y Cydbwyllgor Archwilio**

Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd wedi penodi Cydbwyllgor Archwilio annibynnol sy'n darparu sicrwydd er mwyn cynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn nhrefniadau llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Caiff canlyniadau a phenderfyniadau'r Cydbwyllgor Archwilio eu cyhoeddi, eu cyfleu'n fewnol a'u rhannu â'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd.

Mae'r dull hwn o weithredu yn gyson â Chod Ymarfer Rheoli Ariannol sy'n nodi y dylai corff cyfunol o'r fath ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac allanol y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio hefyd yn ystyried adroddiadau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi. Wrth gyflawni ei rwymedigaethau, mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn llunio adroddiad blynyddol sy'n myfyrio ar eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn cynnig sylwadau, cyngor a sicrwydd ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd rheolaeth fewnol Gwasanaethau Plismona. Mae'n goruchwylio materion llywodraethu cyffredinol. Yn ystod 2017/18, roedd y Pwyllgor yn cynnwys 4 unigolyn

annibynnol oedd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd. Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter. Ceir Cylch Gorchwyl ffurfiol i arwain busnesau, gan sicrhau yr ymdrinnir â materion o fewn paramedrau clir cylch gwaith y Pwyllgor. Cynrychiolir y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd yn holl gyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio ac maent yn eu mynychu'n rheolaidd.

Cyfarfu'r Cydbwyllgor Archwilio ar 19 Mawrth 2018 i ystyried y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

**Archwilio Mewnol**

Prif rôl Archwilwyr Mewnol yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn ag effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau. I'r perwyl hwn, mae'r Archwilydd Mewnol yn cyflwyno barn flynyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a adolygwyd gan y tîm archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn flynyddol hon, a nodir yn adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol, yn un o'r ffynonellau allweddol o dystiolaeth sy'n ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gan gyfeirio at archwilydd mewnol 2017/18, mynegodd TIAA Cyf y farn ganlynol:

*"TIAA is satisfied that for the areas reviewed during the year that the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys and Chief Constable Dyfed-Powys Police has reasonable and effective risk management, control and governance processes in place. Also, there was evidence to support the achievement of value for money with regard to economy, efficiency or effectiveness of the systems reviewed. This opinion is based solely on the matters that came to the attention of TIAA during the course of the internal audit reviews carried out during the year and is not an opinion on all elements of the risk management, control and governance processes or the ongoing financial viability which must be obtained by the Police and Crime Commissioner and the Chief Constable from the various sources of assurance".*

Isod nodir nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd dros y 12 mis diwethaf o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ynghyd â'r asesiadau o sicrwydd:

| Asesiadau o Sicrwydd | Nifer yr Adolygiadau | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 7 | 4 |
| Sicrwydd Rhesymol | 15 | 11 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 1 | 2 |
| Dim sicrwydd | 0 | 0 |

Mae tri adroddiad drafft yn weddill o ran rhaglen archwilio 2017/18, a nododd yr asesiadau ohonynt eu bod i gyd yn darparu sicrwydd rhesymol. Cafwyd wyth argymhelliad yn deillio o'r adroddiadau hyn, gyda chwech yn cael eu hystyried yn bwysig a dau yn cael eu categoreiddio'n arferol.

Cynhaliodd yr Archwilwyr Mewnol Adolygiad Sicrwydd o Lywodraethu – Rheolaeth Strategol a Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2017/18. Nododd yr asesiad cyffredinol sicrwydd rhesymol a gwnaed dau argymhelliad pwysig, dau arferol ac un effeithiolrwydd gweithredol. Ymdriniwyd â nifer o'r rhain eisoes, ac eir i'r afael â'r rhai sy'n weddill yn ystod 2018/19.

Cafodd y Cydbwyllgor Archwilio un adroddiad a roddodd sicrwydd cyfyngedig ynghylch rheolaethau mewnol Ymchwiliadau Dyletswydd Gofal – Adnoddau Dynol a Chyllid. Roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch corfforaethol. Ym mhob archwiliad arall a gynhaliwyd yn ystod 2017/18 rhoddwyd sicrwydd rhesymol neu sylweddol ac mae pob un o'r camau gweithredu â'r flaenoriaeth uchaf y cytunwyd arnynt wedi cael eu cwblhau. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn ystyried pob adroddiad archwilio mewnol ac yna'n monitro hynt y gwaith o weithredu argymhellion archwiliadau.

**Archwilwyr Allanol**

Fel archwilydd allanol, mae'n ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, asesu p'un a yw'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, maent yn ystyried y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol;
- systemau rheolaeth fewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, fel y nodir yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a'u hadroddiad arnynt;
- canlyniadau gwaith arall a wneir, gan gynnwys gwaith archwilio perfformiad ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill lle bo'n berthnasol i'w cyfrifoldebau;
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac a ystyrir yn angenrheidiol er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru farnau archwilio diamod o ran cyfrifon 2016/17 i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac roedd yn fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau.

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC), Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) yn flaenorol**

Mae prosesau ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn yr heddlu yn cael eu llywodraethu gan Ddeddfau Seneddol, canllawiau'r Swyddfa Gartref a chanllawiau statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Arweiniodd Rheoliadau newydd a gyflwynwyd yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 at ddiwygiadau i ganllawiau'r Swyddfa Gartref a chanllawiau statudol IOPC. Mae polisïau a gweithdrefnau mewnol wedi cael eu hadolygu a'u diwygio yn unol â'r rhain.

Ar 8 Ionawr 2018, arweiniodd diwygiadau i ddeddfwriaeth cwynion yn Neddf Plismona a Throseddu 2017 at strwythur llywodraethu diwygiedig ar gyfer yr IOPC, a gwnaeth ddiwygiadau i'w chylch gwaith mewn nifer o feysydd yn ymwneud ag ymdrin â chwynion yr heddlu ac ymchwilio iddynt. Er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn, newidiwyd enw'r IPCC i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC).

Yn 2017/18 ni chafwyd unrhyw argymhellion sylweddol gan yr IOPC. Mae Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithio'n galed er mwyn gwella amseroldeb y broses o ddelio â chwynion, mater y mae'r IOPC wedi craffu arno'n agos. Gwnaed gwelliannau sylweddol o ran nifer yr achosion yr ymdrinnir â hwy ar ffurf Datrysiad Lleol, sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar amseroldeb y broses o gwblhau achosion. Mae angen gwella amseroldeb ymchwiliadau o hyd, ond mae Heddlu Dyfed-Powys yn hyderus, unwaith yr ymdrinnir â'r achosion etifeddol, y bydd

amseroldeb yn gwella'n sylweddol. Mae cofnodi cwynion o fewn y terfyn amser statudol o 10 diwrnod gwaith yn parhau i fod ymhlith y gorau yn y wlad.

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn cynnal cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn gyda swyddog cyswllt yr IOPC ac yn ystod y rheini caiff Heddlu Dyfed-Powys ei ddwyn i gyfrif am berfformiad o ran delio â chwynion ac ymddygiad.

Bydd Deddf Plismona a Throseddu 2017 hefyd yn cyflwyno newidiadau i'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn erbyn yr heddlu. Cyflwynir Comisiynwyr yn lle Prif Swyddogion fel Cyrff Apelio Perthnasol mewn apeliadau cwyno, gan sicrhau mwy o dryloywder a didueddrwydd fel rhan o'r broses. Wrth baratoi ar gyfer y newidiadau hyn a fydd yn digwydd yn 2019, penderfynodd y Comisiynydd y byddai'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus, tîm sy'n gyfrifol am ddelio â phryderon a chanmoliaeth ynghylch plismona gan y cyhoedd, yn newid o fod yn gydgyfrifoldeb y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, i fod yn gyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yn unig ym mis Mawrth 2018. Y rhesymeg dros wneud hynny oedd nid yn unig creu profiad di-dor i'r achwynydd ond hefyd sicrhau gwrthrychedd ac annibyniaeth yn ystod y camau apelio.

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

Corff annibynnol a sefydlwyd i hyrwyddo mynediad at wybodaeth swyddogol a diogelu gwybodaeth bersonol yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn hwyluso cydymffurfiaeth drwy helpu Heddlu Dyfed-Powys i ddeall beth mae'r Ddeddf Diogelu Data (ac o 2018 ofynion o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data), y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a materion cysylltiedig yn ei olygu ac yn ein cynghori ynglŷn â sut y dylid diogelu gwybodaeth bersonol.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi cytuno, gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y bydd yn gwella diogelwch gwybodaeth y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrin â hi. Fel rhan o'r ymgymeriad hwnnw, mae'r Prif Gwnstabl wedi cytuno ar y canlynol:

(1) Cynnal rhaglen hyfforddi ym maes diogelu data ar draws Heddlu Dyfed-Powys a wnaiff feithrin y wybodaeth angenrheidiol ymhlith swyddogion i gydymffurfio â'r Ddeddf a pholisïau'r rheolwr data ynghylch prosesu data personol.

(2) Cyflwyno rhaglen fireinio ar draws Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Ddeddf.

(3) Cynnal rhaglen i gofnodi a monitro hyfforddiant gyda chamau adferol prydlon i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth lle bo angen.

(4) Gweithredu mesurau diogelwch eraill fel sy'n briodol er mwyn sicrhau bod data personol yn cael eu diogelu rhag prosesu heb awdurdod ac anghyfreithlon, colled ddamweiniol, dinistrio a/neu ddifrodi.

(5) Cadarnhau cynlluniau'n ysgrifenedig gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn dangos ymrwymiad i'r camau hyn.

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth A Gwasanaethau Tân Ac Achub Ei Mawrhydi**

Rôl yr Arolygiaeth yw arolygu heddluoedd er budd y cyhoedd a hyrwyddo gwell plismona er mwyn gwneud pawb yn fwy diogel. Mae'r Arolygiaeth hefyd yn rhoi cyngor a chymorth i'r tri phartner (yr Ysgrifennydd Cartref, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Heddluoedd) ac yn chwarae rôl bwysig o ran datblygu arweinwyr y dyfodol.

Yn 2016/17, gwnaeth Rhaglen Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd, Arweinyddiaeth a Chyfreithlondeb (PEEL) yr Heddlu asesu bod "Angen Gwella" ar Heddlu Dyfed-Powys yn gyffredinol ac ym mhob maes. Yn ystod 2017/18, parhawyd i weld lefel sylweddol o

weithgarwch arolygu gan yr Arolygiaeth o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Fodd bynnag, mae'n dda nodi bod gradd gyffredinol Heddlu Dyfed-Powys wedi gwella yn yr arolygiadau mwyaf diweddar o Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb.

| 2016 | PEEL ACEM | 2017 |
|---|---|---|
| | **EFFEITHLONRWYDD** | |
| Angen Gwella | Pa mor dda mae HDP yn deall galw? | Da |
| Angen Gwella | Pa mor dda mae HDP yn defnyddio ei adnoddau? | Angen Gwella |
| Angen Gwella | Pa mor dda mae HDP yn cynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol? | Angen Gwella |
| Angen Gwella | **GRADD GYFFREDINOL** | Angen Gwella |
| | **EFFEITHIOLRWYDD** | |
| Da | Pa mor effeithiol yw HDP yn atal troseddau, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel? | Da |
| Angen Gwella | Pa mor effeithiol yw HDP yn ymchwilio i droseddau a lleihau aildroseddu? | Da |
| Angen Gwella | Pa mor effeithiol yw HDP yn diogelu pobl agored i niwed, a chefnogi dioddefwyr? | Angen Gwella |
| Da | Pa mor effeithiol yw HDP yn ymdrin â throseddau difrifol a chyfundrefnol? | Da |
| Heb ei raddio | Pa mor effeithiol yw galluoedd arbenigol HDP? | Heb ei raddio |
| Angen Gwella | **GRADD GYFFREDINOL** | Da |
| | **CYFREITHLONDEB** | |
| Angen Gwella | I ba raddau mae HDP yn trin pawb y mae'n eu gwasanaethu yn deg ac â pharch? | Da |
| Angen Gwella | Pa mor dda mae HDP yn sicrhau bod ei weithlu yn ymddwyn yn foesegol ac yn gyfreithlon? | Da |
| Angen Gwella | I ba raddau mae HDP yn trin ei weithlu yn deg ac â pharch? | Angen Gwella |
| Angen Gwella | **GRADD GYFFREDINOL** | Da |

Mae gweithgarwch Arolygu'r Arolygiaeth yn darparu haen ychwanegol o sicrwydd ynghylch rheoli Heddlu Dyfed-Powys a'i drefniadau llywodraethu. Anfonir adroddiadau'r Arolygiaeth at y Prif Gwnstabl i'w hystyried a chymryd camau gweithredu priodol. Mae'r Arolygiaeth, gan weithio ochr yn ochr â Swyddfa Archwilio Cymru, yn chwarae rôl allweddol o ran rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd a'r cyhoedd am effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd gweithredol yr Heddlu ac, wrth wneud hynny, yn hwyluso atebolrwydd y Prif Gwnstabl i'r cyhoedd. Caiff adroddiadau ar y wybodaeth ddiweddaraf a chamau gweithredu sylweddol a gymerwyd o ganlyniad i weithgareddau'r Arolygiaeth eu cyflwyno a'u monitro drwy Grŵp Llywodraethu'r Arolygiaeth a'r Cydbwyllgor Archwilio. Mae'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael â Meysydd i'w Gwella neu Argymhellion yn fwy lleol, gyda phob priod Grŵp neu Fwrdd yn gyfrifol am y Maes i'w Wella ei hun.

**Panel yr Heddlu a Throseddu**

Rôl Panel yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yw craffu ar waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i gefnogi. Mae'r Panel yn cynnwys aelodau a enwebwyd gan y pedwar cyngor yn ardal Heddlu Dyfed-Powys: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys ac o leiaf ddau aelod annibynnol. Cyngor Sir Gâr yw prif awdurdod y Panel.

Mae gan y Panel nifer o bwerau a chyfrifoldebau gan gynnwys:

- Adolygu cynllun yr heddlu a throseddu'r Comisiynydd
- Adolygu cyllideb ddrafft flynyddol y Comisiynydd, gyda'r pŵer i wrthod lefel y praesept
- Delio â chwynion yn erbyn y Comisiynydd neu ei ddirprwy
- Craffu ar benderfyniadau a gweithredoedd y Comisiynydd
- Adolygu penodiad neu ddiswyddiad y Prif Gwnstabl
- Cefnogi gwaith y Comisiynydd

- Cyflwyno adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Comisiynydd
- Adolygu ymddygiad y Comisiynydd

Ni all y Panel graffu ar Heddlu Dyfed-Powys na'i waith. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau, mae'r Panel wedi ystyried penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd bob chwarter. Mae'n werth nodi i'r Panel roi cefnogaeth unfrydol i benderfyniad y Comisiynydd ynghylch y praesept ym mis Ionawr 2018, er mwyn darparu gwasanaethau plismona i'r cyhoedd yn Nyfed-Powys.

## Egwyddorion Craidd a'u cymhwyso

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn cynnwys crynodeb o'r trefniadau sydd ar waith i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd gyflawni pob un o saith egwyddor graidd llywodraethu da fel y'u nodwyd yn y fersiwn ddiwygiedig o Delivering Good Governance (2016 edition) CIPFA.

- Egwyddor Graidd A – ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith
- Egwyddor Graidd B – sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gynhwysfawr
- Egwyddor Graidd C – pennu canlyniadau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- Egwyddor Graidd D - penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau arfaethedig
- Egwyddor Graidd E - datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion ynddo
- Egwyddor Graidd F – rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a threfniadau rheoli ariannol cyhoeddus cadarn
- Egwyddor Graidd G – gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

Gellir dod o hyd i fanylion y mesurau sydd ar waith yn Atodiad C. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am adolygu'r gwaith o gymhwyso'r Egwyddorion Craidd wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn ac, yn arbennig, y camau gweithredu a'r dystiolaeth a lunnir i ategu hyn. Caiff cofnodion o drafodaethau'r Grŵp a'i benderfyniadau eu hystyried gan y Cydbwyllgor Archwilio.

## Adolygu effeithiolrwydd

Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, o leiaf bob blwyddyn, yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, uwch reolwyr o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a hefyd gan sylwadau a wneir gan yr archwilydd allanol ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill. Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn bennaf cyfrifol am adolygu llywodraethu gyda Chofnodion a chamau gweithredu yn cael eu hadolygu gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio yn aelod o'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn coladu tystiolaeth ac asesu cynnydd yn erbyn matrics tystiolaeth a gynlluniwyd i ddangos cydymffurfiaeth Gwasanaethau Plismona â'r Egwyddorion Craidd. Y matrics hwn yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, a cheir y crynodeb yn Atodiad C.

Cyfarfu'r Grŵp ar 30 Tachwedd 2017 ac yna ar 14 Chwefror 2018 i gynnal adolygiad blynyddol o'r trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a daeth i'r casgliad bod cynnydd da wedi'i wneud o ran datblygu'r fframwaith llywodraethu yn ystod 2017/18.
Gwnaeth gwaith yr uchod yn 2017/18 arwain at rai newidiadau i'r trefniadau llywodraethu a oedd yn cynnwys:

a) Cyflwyno strwythur llywodraethu newydd er mwyn atgyfnerthu tryloywder ar draws y ddau sefydliad. Mae'r strwythur yn rhoi amlinelliad clir o'r agweddau ar blismona a oruchwylir gan y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd ac mae'n ystyried rôl y Cydbwyllgor Archwilio a'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.
b) Datblygu Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r Grwpiau a'r Byrddau sy'n rhan o'r Strwythur Llywodraethu, er mwyn darparu ffocws eglur, lleihau dyblygu a phennu amcanion clir.
c) Adfywio nifer o grwpiau gan gynnwys Grŵp Dysgu'r Gwersi er mwyn sicrhau bod llywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd yn cael eu cymhwyso at bob maes busnes yn ogystal â materion ar draws Heddlu Dyfed-Powys
d) Creu rhai grwpiau a byrddau fel y Grŵp Archwilio a Sicrhau Ansawdd er mwyn goruchwylio gweithgarwch Heddlu Dyfed-Powys na chawsai ei fonitro'n ganolog yn flaenorol.

Crynhoir camau gweithredu 2017/18 a manylir ar y cynnydd a wnaed yn y tabl isod:

| **Cam gweithredu** | Cynnydd |
|---|---|
| Ystyried pa mor dda y deellir proses atgyfeirio'r Cod Moeseg a'r broses adrodd ar gyfer adborth. | **Wedi'i gwblhau:** Cafodd proses atgyfeirio'r Cod Moeseg ei hystyried gan y Bwrdd Pobl a'i chymeradwyo fel dull effeithiol o ddwyn pryderon moesegol i sylw Heddlu Dyfed-Powys. Gwneir atgyfeiriadau ar-lein a gellir eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Pobl i'w hystyried os oes angen. |
| Sicrhau bod moeseg ac uniondeb yn cael eu hatgyfnerthu drwy'r broses adolygu datblygiad proffesiynol newydd | **Cwblhawyd:** Mae'r broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol wedi'i chynllunio er mwyn sicrhau bod goruchwylwyr yn atgoffa staff o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan y Cod Moeseg. Roedd hefyd gwestiynau a oedd yn gofyn i unigolion nodi'r hyn roeddent wedi'i wneud er mwyn bodloni meini prawf oedd yn cyd-fynd â moeseg ac uniondeb. Fodd bynnag, dim ond 53% oedd y gyfradd gwblhau a chydnabyddir bod hwn yn faes i'w ddatblygu ymhellach |
| Ystyried sefydlu Grŵp Cyfeirio Proffesiynol o staff mewnol i gynghori mewn perthynas â pholisïau a materion sy'n cael eu datblygu | **Cwblhawyd:** Mae'r Grŵp Cyfeirio Proffesiynol wedi'i sefydlu ac mae wedi cyfarfod ddwywaith. Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter. Fe'i hwylusir gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Cydweithredu ac Effeithlonrwydd ac Arweinydd Ffederasiwn yr Heddlu. Ar hyn o bryd rhestrir 85 o aelodau i gyfrannu at y grŵp ac maent yn bennaf cyfrifol am nodi pynciau i'w trafod |
| Paratoi Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol ar ffurf derfynol a defnyddio adnoddau Proffilio Cymunedol i gynyddu ymgysylltu â'r gymuned ar lefel gorfforaethol | **Cwblhawyd:** Mae'r Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol ar ei ffurf derfynol.<br>**Cwblhawyd:** Mae Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio adnodd proffilio cymunedol (MOSAIC). Mae'r canlyniadau yn llywio gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu.<br>**Camau gweithredu yn mynd rhagddynt:** Mae gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned yn parhau i gynyddu, gyda nifer o fethodolegau'n cael eu defnyddio, gan gynnwys cyfarfodydd |

| | |
|---|---|
| | cyhoeddus a gynhelir gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl mewn cymunedau lleol, mwy o ddiwrnodau ymgysylltu, cylchlythyr 'Cyswllt Cymunedol' bob deufis a mwy o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Comisiynydd yn parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn ac mae'r gweithgarwch yn cynnwys sefydlu fforwm ieuenctid, defnydd cynyddol o wirfoddolwyr i gefnogi gweithgarwch craffu ac ystyried rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned ledled ardal Dyfed-Powys. |
| Ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad allweddol fel rhan o broses drws ffrynt newydd ar gyfer achosion busnes a gwaith cynllunio yn y dyfodol | Yn mynd rhagddo: Cyflwynir modelau achos busnes o fewn Dyfed-Powys. Rhaid i bob achos am adnoddau gael ei gyflwyno mewn achos busnes rhesymegol, sy'n gydnaws â Model Llyfr Gwyrdd y Trysorlys.<br>Mae templed corfforaethol ar gyfer achosion busnes wedi cael ei ddatblygu a bydd yn sicrhau y cyfeirir at egwyddorion datblygu cynaliadwy.<br>Camau gweithredu yn mynd rhagddynt: Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i ddatblygu proses 'drws ffrynt' a'i hymgorffori drwy'r strwythur a threfniadau llywodraethu newydd cyfan. |
| Datblygu ac ymgorffori Cynllun Cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn y sefydliad drwy drefniadau llywodraethu priodol, gan gynnwys strwythurau perfformiad. | Yn mynd rhagddo: Sefydlwyd tîm i ddatblygu'r Cynllun Cyflenwi hwn er mwyn cefnogi Cynllun yr Heddlu a Throseddu. Caiff hynt y Cynllun Cyflenwi ei fonitro gan y Byrddau Llywodraethu a'i fonitro'n rheolaidd. |
| Creu cronfa o sgiliau a chymwysterau staff a pharatoi'r Strategaeth Arweinyddiaeth a Llesiant ar ffurf derfynol. Rhoi'r Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol ar waith | Cwblhawyd: Cynhaliwyd archwiliad o sgiliau o fewn Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gan arwain at greu cronfa ddata o sgiliau swyddogion a staff o fewn iTrent. Mae cyfleoedd i ddatblygu'r gwaith hwn yn ehangach er mwyn llywio gwaith cynllunio'r gweithlu ac ystyrir opsiynau yn 2018/19. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn ac mae'r gweithgarwch ar gyfer 2018/19 yn cynnwys sefydlu fforwm ieuenctid, defnydd cynyddol o wirfoddolwyr i gefnogi gweithgarwch craffu ac ystyried rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned ledled ardal Dyfed-Powys.<br>Cwblhawyd: Mae strategaeth CALON wedi'i hymgorffori ac mae fforwm o fewn y Strwythur Llywodraethu yn goruchwylio cynnydd mewn perthynas â'r gwahanol elfennau o ddatblygu arweinyddiaeth a llesiant.<br>Cwblhawyd: Mae rhaglen Trawsnewid Arweinyddiaeth wedi'i chyflwyno i'r 60 o brif arweinwyr o fewn Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r rhaglen a bydd y canlyniadau'n llywio'r gwaith o gyflwyno hyfforddiant Arwain yn ehangach ar draws Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. |
| Cwblhau'r Meysydd i'w Gwella Hanesyddol a oedd wedi'u cynnwys yn arolygiadau Effeithiolrwydd Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi er mwyn gwella'r graddau a chael gradd 'dda'. | Yn mynd rhagddo: Mae rhaglen dreigl ar waith i graffu ar Feysydd i'w Gwella sy'n weddill yn deillio o arolygiadau'r Arolygiaeth a gwnaed cryn dipyn o gynnydd yn cwblhau'r rhain. Y gwahanol Fyrddau a Grwpiau Llywodraethu sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r rhain a cheir goruchwyliaeth bellach gan Grŵp Llywodraethu'r Arolygiaeth er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.<br>Gwnaed gwelliannau sylweddol ac enillwyd graddau 'Da' ar gyfer Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb. |
| Pennu a chyhoeddi cynllun o'n prosesau a'n systemau archwilio a'n profion cydymffurfiaeth ein hunain. Cysylltu'r cynllun gweithredu llywodraethu corfforaethol â'r | Yn mynd rhagddo: Mae cynllun archwilio wrthi'n cael ei ddatblygu yn dilyn ymarfer i ddeall pa archwiliadau a phrofion sydd eisoes ar waith o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Y Grŵp Archwilio a Sicrhau Ansawdd sy'n gyfrifol am oruchwylio cynnydd mewn perthynas â'r gwaith hwn.<br>Wedi'i gwblhau: Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn llywio'r |

| | |
|---|---|
| gofrestr risg. | gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Fel y cyfryw, nid yw'r dogfennau hyn wedi'u cysoni. Mae'n bwysig sicrhau nad ydynt yn dyblygu ei gilydd ac felly y gwahanol fyrddau fydd yn gyfrifol am unrhyw gamau gweithredu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (fel sy'n wir am risg) o ran mynd i'r afael â nhw ac adrodd yn ôl arnynt. |

***Noder:*** **O ganlyniad i baratoi un Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'r adolygiad uchod o gynnydd wedi cyfuno'r ddau gynllun gweithredu ar gyfer 2017/18.**

## Camau gweithredu ar gyfer 2018/19

Mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi nifer o feysydd o fewn Gwasanaethau Plismona a fyddai, o'u cyflawni, yn dangos gwell atebolrwydd, tryloywder a threfniadau gweithio effeithiol, yn ogystal ag atgyfnerthu ymhellach y trefniadau llywodraethu sydd ar waith.

| Cam gweithredu | Perchennog | Amserlen |
|---|---|---|
| Ymgorffori proses Datganiad Rheoli Heddluoedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi a'i defnyddio fel adnodd cynllunio strategol er mwyn nodi bylchau o ran gallu Heddlu Dyfed-Powys a mynd i'r afael â blaenoriaethau plismona. | Dirprwy Brif Gwnstabl | Rhagfyr 2018 |
| Sefydlu 'proses drws ffrynt' er mwyn nodi prosiectau newid mawr sy'n dod i'r amlwg yn gorfforaethol a'u blaenoriaethu, gan sicrhau'r gallu a'r adnoddau angenrheidiol i weithredu'r rhaglenni hyn. | Dirprwy Brif Gwnstabl / Prif Uwcharolygydd y Bencadlys | Mawrth 2019 |
| Sefydlu ac ymgorffori'n gyson systemau archwilio a sicrhau ansawdd er mwyn gwella ansawdd data a gwella dull Heddlu Dyfed-Powys o reoli gwybodaeth. | Prif Gwnstabl / Cyfarwyddwr cynorthwyol – TG a Phrif Uwcharolygydd Pencadlys | Medi 2018 |
| Gwella trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod pwysau ariannol yn cael eu nodi'n gynnar er mwyn hwyluso cynlluniau ariannol cadarn. | Cyfarwyddwr Cyllid / Prif Swyddog Cyllid | Medi 2018 |
| Datblygu Strategaeth gynhwysfawr ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn unol â Gweledigaeth Blismona 2025 a blaenoriaethau rhanbarthol, gan nodi'n glir flaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys o ran Ystadau, TGCh, Pobl a darparu gwasanaethau. | Prif Uwcharolygydd y Bencadlys / Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cydweithredu ac Effeithlonrwydd | Rhagfyr 2018 |
| Cynnal adolygiad o strwythurau llywodraethu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a phrosesau atebolrwydd a chyfathrebu cadarn. | Dirprwy Brif Gwnstabl/Rheolwr Llywodraethu a Chynllunio | Tachwedd 2018 |
| Sefydlu ac ymgorffori systemau sicrwydd er mwyn ategu a chefnogi gweithgarwch archwilio a sicrwydd Heddlu Dyfed-Powys, gan sicrhau y creffir ar berfformiad mewn modd annibynnol, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd | Pennaeth Staff, | Medi 2018 |
| Sefydlu ac ymgorffori gweithgarwch monitro perfformiad mewnol o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn darparu ffocws a dangos atebolrwydd ac effeithiolrwydd. | Pennaeth Staff, | Hydref 2018 |

**Datganiad**


Rydym yn cynnig dros y flwyddyn sydd i ddod i gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn diwallu'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiadau o effeithiolrwydd dros y flwyddyn a byddwn yn monitro'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith a'u gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod: | Llofnod: | Llofnod: | Llofnod: |
| **Mark Collins** | **Dafydd Llywelyn** | **Edwin Harries** | **Beverley Peatling** |
| **Y Prif Gwnstabl** | **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | **Cyfarwyddwr Cyllid** | **Prif Swyddog Ariannol, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** |
| Dyddiad: | Dyddiad: | Dyddiad: | Dyddiad: |

# Atodiad A – Cynllun Cyflenwi ar gyfer yr Heddlu a Throseddu ar Dudalen



# Atodiad B – Strwythur Llywodraethu



## Atodiad C – Matrics Tystiolaeth

<table>
<tr><th>Egwyddor Graidd</th><th>Beth sydd ar waith</th></tr>
<tr><td>A:<br>Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith</td><td>Gwasanaethau Plismona:<br>Y Gweithlu<br>• Cod Ymddygiad,<br>• Cofrestr o roddion a lletygarwch<br><br>Cadw cydbwysedd<br>• Cadeiryddion â Chymwysterau Cyfreithiol.<br>• Newidiadau deddfwriaethol i'r broses o ddelio â chwynion[1].<br><br>Y Prif Gwnstabl:<br>Y Gweithlu<br>• Y Sefydliad Arwain<br>• Cod moeseg y Coleg Plismona wedi'i ymgorffori yng ngweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd Heddlu Dyfed-Powys.<br>• Dulliau o herio ymddygiad anfoesol yn cynnwys<br>    o Drwg yn y Caws,<br>    o Pwyllgor Cod Moeseg.<br>    o Chwythu'r chwiban<br><br>Cadw cydbwysedd<br>• Gwasanaethau Cyfreithiol.<br>• Adran Safonau Proffesiynol ac Adran Gwasanaethau Pobl.<br>• Pwyllgor Moeseg a Grŵp Dysgu'r Gwersi.<br><br>Asesiad annibynnol<br>• Arolygiad cyfreithlondeb PEEL Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi</td></tr>
</table>

[1] Deddf Plismona a Throseddu 2017

<table>
<tr><td></td><td>Comisiynydd:<br>Y Gweithlu<br>• Mae'r Comisiynydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth[2].<br>• Cyhoeddir penderfyniadau ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.<br><br>Cadw cydbwysedd<br>• Swyddog Monitro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.<br>• Mae'r Pennaeth Staff yn sicrhau bod staff yn cynnal y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol.<br><br>Asesiad annibynnol<br>• Panel yr Heddlu a Throseddu</td></tr>
<tr><td>B:<br>Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gynhwysfawr</td><td>Gwasanaethau Plismona:<br>Y Gweithlu<br>• Mae'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu effeithiol yn cynnwys<br>  o Cyfarfodydd rheolaidd ag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol<br>  o Ymgynghoriad cyhoeddus<br>  o Gwefannau newydd eu cyhoeddi<br>  o Cyfarfodydd cyhoeddus misol<br>    Cyhoeddi gwybodaeth ar wefan Heddlu Dyfed-Powys a'r Comisiynydd<br><br>Y Prif Gwnstabl:<br>Y Gweithlu<br>• Dulliau ymgysylltu mewnol.<br>• Proffilio cymunedol.<br>• Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.<br>• Ymgysylltu â chymunedau.<br>• Cyfarfodydd partneriaeth.<br>• Gwefan / rhif ffôn ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys<br>• Trefniadau cydweithio<br><br>Cadw cydbwysedd</td></tr>
</table>

[2] Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011 a Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2012

<table>
<tr><td></td><td>
<ul><li>Gwirfoddolwyr yn cynnwys:<ul><li>Grŵp Cynghori Annibynnol</li><li>Bugeiliaid stryd</li><li>Gwasanaeth caplan</li></ul></li>
<li>Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011</li></ul>
Comisiynydd:<br>
Y Gweithlu
<ul><li>Y Comisiynydd yw Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys.</li>
<li>Penodi Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned.</li>
<li>Proses dryloyw a theg ar gyfer gweithgarwch comisiynu.</li></ul>
Cadw cydbwysedd
<ul><li>Gwirfoddolwyr yn cynnwys:<ul><li>Grŵp Cynghori Annibynnol</li><li>Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd</li><li>Panel Sicrhau Ansawdd</li><li>Ymwelwyr lleyg Lles Anifeiliaid.</li></ul></li>
<li>Panel Penderfynu y Tu Allan i'r Llys</li></ul>
</td></tr>
<tr><td>C.<br>Pennu canlyniadau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy</td><td>
Gwasanaethau Plismona:<br>
Y Gweithlu
<ul><li>Cymeradwywyd cytundeb partneriaeth rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, a phartneriaid Plismona a Chyfiawnder Troseddol ledled Cymru.</li>
<li>Prosiect Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.</li></ul>
Y Prif Gwnstabl:<br>
Y Gweithlu
<ul><li>Gweithgor Polisi Amgylcheddol / Cynaliadwyedd.</li>
<li>Model Pum Achos ar gyfer pob achos busnes.</li>
<li>Datganiad Rheoli Heddlu Dyfed-Powys.</li></ul>
Cadw cydbwysedd
</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Mabwysiadu egwyddorion craidd System Reoli Amgylcheddol ISO14001 yn answyddogol.<br>• Cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Garbon.<br>• Mabwysiadu egwyddorion "Successful Health and Safety Management" (HSG65).<br><br>**Asesiad annibynnol**<br>• Cafodd astudiaeth dichonolrwydd ei chynnal gan yr Ymddiriedolaeth Garbon a Cymru Effeithlon drwy Lywodraeth Cymru yn 2017.<br>• Mae heddlu allanol yn cynnal archwiliad o Iechyd a Diogelwch bob 5 mlynedd.<br>• Fe'i llywodraethir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Awdurdodau Tân.<br>• Cynhelir archwiliadau bob hyn a hyn gan TIAA.<br><br>**Comisiynydd:**<br>**Y Gweithlu**<br>• Strategaeth Ystadau.<br>• Y Comisiynydd sydd â phortffolio cenedlaethol TG. |
| **D:**<br>**Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau arfaethedig.** | **Gwasanaethau Plismona:**<br>**Y Gweithlu**<br>• Proses adolygu datblygiad proffesiynol.<br>• Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Dynamig.<br><br>**Asesiad annibynnol**<br>• Rhaglenni gwaith archwilio mewnol.<br>• Rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>**Y Prif Gwnstabl:**<br>**Y Gweithlu**<br>• Adroddir ar berfformiad cyffredinol Heddlu Dyfed Powys drwy'r Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau. Cynhelir gwaith monitro Perfformiad Lleol drwy'r cyfarfodydd perfformiad a thasgau. Mae system dangosfwrdd (Qlikview) yn dwyn ynghyd ddata ar berfformiad Heddlu Dyfed-Powys.<br>• Mae blaenoriaethau cyffredinol fel y Strategaeth Reoli, 3 blaenoriaeth y Prif Gwnstabl a Chynllun yr Heddlu a Throseddu yn pennu cyfeiriad plismona lleol.<br>• Cynllunio ariannol cadarn.<br>• Cynllunio'r gweithlu. |

<table>
<tr><td></td><td>Cadw cydbwysedd<br>• Gweithgarwch sicrhau ansawdd mewnol ac archwilio mynych.<br><br>Asesiad annibynnol<br>• Gweithgarwch Arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi.<br><br>Comisiynydd:<br>Y Gweithlu<br>• Cynllun yr Heddlu a Throseddu - pedair blaenoriaeth allweddol<br>• Monitro perfformiad Heddlu Dyfed-Powys ym Mwrdd Atebolrwydd Plismona.</td></tr>
<tr><td>E:<br>Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion ynddo.</td><td>Gwasanaethau Plismona:<br>Y Gweithlu<br>• Rhaglen Trawsnewid Arweinyddiaeth wedi'i chyflwyno i'r 60 o brif arweinwyr o fewn y sefydliad. Bwriedir ei chyflwyno'n ehangach yn 2018/19.<br>• Ail garfan Llywio, rhaglen rheoli talent Heddlu Dyfed-Powys wedi'i chwblhau.<br>• Adolygiadau Datblygu Proffesiynol yn galluogi goruchwylwyr i ystyried cyfleoedd i ddatblygu eu timau.<br>• Cynllun hyfforddi a mentora.<br>• Cynllun hyfforddi wedi'i gostio.<br>• Cynlluniau prentisiaeth<br>• Cyfleoedd secondio.<br>• Strategaeth cydweithredu yn golygu bod modd manteisio i'r eithaf ar weithio a rennir.<br>• Gwirfoddolwyr yn mynegi barn ar gyflwyno polisi a darparu gwasanaethau.<br>• Fframweithiau Datblygu Proffesiynol yn llywio recriwtio a hyfforddiant.<br><br>Y Prif Gwnstabl:<br>Y Gweithlu<br>• Mae strategaeth arweinyddiaeth a llesiant CALON ar waith. Adroddir yn erbyn y cynllun cyflawni ategol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd grŵp arweinyddiaeth a llesiant CALON.<br>• Staff medrus cefn swyddfa yn sicrhau bod y gweithlu yn gallu ymdopi â'r galw.<br>• Datblygu strategaeth rheoli talent.<br>• Achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl.<br><br>Comisiynydd:</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td>Y Gweithlu<ul><li>Y Comisiynydd sydd â phortffolio cenedlaethol TG ac mae'n buddsoddi amser yn sicrhau atebion TG cynaliadwy i blismona a chyfiawnder troseddol sy'n rhyngweithredol</li></ul></td></tr>
<tr><td>F:<br>Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a threfniadau rheoli ariannol cyhoeddus cadarn</td><td>Gwasanaethau Plismona:<br>Y Gweithlu<ul><li>Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Dynamig.</li><li>Rheoli risg drwy'r strwythurau llywodraethu.</li></ul>Cadw cydbwysedd<ul><li>Mae rhaglenni gwaith archwilio mewnol yn ystyried adroddiadau archwilio allanol risg wrth bennu meysydd i graffu arnynt.</li><li>Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn goruchwylio canlyniadau pob adroddiad archwilio mewnol.</li><li>Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn craffu'n annibynnol ar lywodraethu corfforaethol, rheoli ariannol a risg.</li></ul>Asesiad annibynnol<ul><li>Rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig argymhellion ar feysydd gwan.</li></ul>Y Prif Gwnstabl:<br>Y Gweithlu<ul><li>Strwythur Llywodraethu newydd wedi atgyfnerthu rheolaeth fewnol.</li><li>Byrddau partneriaeth yn sicrhau bod ymateb a gydlynir i faterion sy'n codi. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:<ul><li>Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth;</li><li>Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd;</li><li>Rheoli Integredig Troseddwyr;</li><li>Byrddau Diogelu Lleol.</li></ul></li><li>Gonestrwydd ariannol.</li><li>Rheolau caffael.</li></ul>Comisiynydd:<br>Y Gweithlu<ul><li>Mae gwaith craffu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei lywio gan broses ddethol seiliedig ar risg.</li></ul></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | **Cadw cydbwysedd**<br>• Mae'r Panel Penderfynu y Tu Allan i'r Llys yn darparu barn broffesiynol annibynnol am faterion cyfiawnder troseddol.<br>• Mae'r Panel Sicrhau Ansawdd yn craffu'n annibynnol ar brosesau delio â chwynion yr heddlu a phrosesau delio â galwadau nad ydynt yn rhai brys yr heddlu.<br><br>**Asesiad annibynnol**<br>• Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn craffu ar weithgarwch Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ynghyd â'i brosesau gwneud penderfyniadau a chyflawni ei rwymedigaethau statudol |
| **G:**<br>**Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol** | **Gwasanaethau Plismona:**<br>**Y Gweithlu**<br>• Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi newid i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd.<br>• Mae gwefannau newydd yn darparu gwybodaeth allweddol er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn dryloyw.<br><br>**Cadw cydbwysedd**<br>• Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn elfen allweddol o system llywodraethu corfforaethol Gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>**Asesiad annibynnol**<br>• Mae rhaglenni archwilio mewnol ac allanol yn sicrhau proses graffu annibynnol a phroses sicrhau ansawdd ar gyfer gwahanol lifau gwaith a meysydd busnes.<br><br>**Y Prif Gwnstabl:**<br>**Y Gweithlu**<br>• Mae'r strwythur llywodraethu diwygiedig yn sicrhau bod prosesau a phenderfyniadau yn dryloyw o fewn Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>**Asesiad annibynnol**<br>• Mae arolygiadau niferus yn craffu ar weithgarwch Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>  o Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi;<br>  o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;<br>  o Archwilio Mewnol;<br>  o Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.<br><br>**Comisiynydd:** |

| | |
|---|---|
| | **Y Gweithlu**<br>• Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd Plismona mewn lleoliadau cyhoeddus amrywiol ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>**Cadw cydbwysedd**<br>• Mae'r Panel Penderfynu y Tu Allan i'r Llys a'r Panel Sicrhau Ansawdd yn darparu prosesau busnes sicrwydd ansawdd a chraffu annibynnol.<br><br>**Asesiad annibynnol**<br>• Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn craffu ar weithgarwch Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. |

## Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Dyfed-Powys

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Prif Gwnstabl Dyfed-Powys; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad am Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys ar 31 Mawrth 2018 ac o'u hincwm a'u gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18.

### Sail ar gyfer y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o Brif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Dyfed-Powys yn unol â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer rhoi sail ar gyfer fy marn.

### Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Does gen i ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) yn mynnu fy mod i'n adrodd i chi, lle:

- nad yw'r defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu unrhyw ansicrwydd materol yn y datganiadau ariannol a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Prif Gwnstabl Dyfed-Powys i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn y cyfrifon a'r Adroddiad Naratif. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd. Nid yw fy marn ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth arall, a heblaw i'r graddau y nodir yn glir yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o ganlyniad sicrwydd.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn adnabod unrhyw anghysondebau materol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio ac adnabod unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn faterol anghywir yn seiliedig ar yr wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu sy'n faterol anghyson â'r wybodaeth honno. Os ydwyf yn dod i wybod am unrhyw anghysondebau neu gamddatganiadau materol amlwg rwy'n ystyried yr oblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ynghylch materion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar waith yr ymgymerwyd ag ef yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol ar gyfer pa un y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18;
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar gyfer pa un y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

### Materion ar bai rai yr wyf yn adrodd drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Dyfed-Powys a'u hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Does gen i ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytûn â'r dychweliadau a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, fel y nodir ar dudalen 18, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r

datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys, sy'n rhoi darlun clir a theg, ac ar gyfer rheolaeth fewnol y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn ystyried sy'n ofynnol ar gyfer paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiad materol, boed hynny drwy dwyll neu drwy gamgymeriad.
Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Prif Gwnstabl Dyfed-Powys i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol fel y bo'n berthnasol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu heblaw bod hynny'n cael ei ystyried yn amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**
Fy amcanion yw ceisio sicrwydd rhesymol ynglŷn â pha un ai a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatganiad materol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel sicrwydd uwch, er nad gwarant, y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob tro'n canfod camddatganiad materol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi os ellir rhesymol ddisgwyl y byddant (yn unigol neu gyda'i gilydd) yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.
Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Anthony J Barrett
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
30 Gorffennaf 2018

Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw cynnal gwefan Heddlu Dyfed-Powys a sicrhau ei huniondeb; nid yw'r gwaith a wnaed gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n gyntaf ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Heddlu Dyfed-Powys sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a gostwng troseddu yn ystod y flwyddyn. Mae Datganiad 2016/17 wedi cael ei ailddatgan i adlewyrchu newidiadau a wnaed i Strwythurau Llywodraethu a Threfniadau Adrodd Heddlu Dyfed-Powys.

| 2016/17 (Wedi'i Ailddatgan) | | | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Nod | 2017/18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | | | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| £'000 | £'000 | £'000 | | | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | | | | |
| 0 | 0 | 0 | Costau Comisiynu a Swyddfa | | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Ystadau | | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | CYFANSWM SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU | | 0 | 0 | 0 |
| | | | **Y PRIF GWNSTABL** | | | | |
| | | | **Cyllidebau a Reolir yn Gorfforaethol gan y Prif Gwnstabl** | | | | |
| 1,476 | 0 | 1,476 | Swyddfa'r Prif Gwnstabl | | 1,589 | 0 | 1,589 |
| 6,708 | 0 | 6,708 | Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | | 7,011 | 0 | 7,011 |
| 6,458 | 0 | 6,458 | Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol/Lleol a Ariennir yn Allanol | | 5,439 | 0 | 5,439 |
| 213 | 0 | 213 | Cymdeithasau Staff | | 282 | 0 | 282 |
| | | | **Cyllidebau a Reolir gan Y Dirprwy Brif Gwnstabl** | | | | |
| 2,628 | 0 | 2,628 | Gwasanaethau Pobl | | 3,094 | 0 | 3,094 |
| 2,522 | 0 | 2,522 | Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | | 4,034 | 0 | 4,034 |
| 816 | 0 | 816 | Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu | | 993 | 0 | 993 |
| 1,135 | 0 | 1,135 | Safonau Proffesiynol | | 1,509 | 0 | 1,509 |
| | | | **Cyllidebau a Reolir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol** | | | | |
| 54,059 | 0 | 54,059 | Plismona Lleol | | 64,151 | 0 | 64,151 |
| 25,741 | 0 | 25,741 | Ymchwiliadau | | 30,187 | 0 | 30,187 |
| 1,580 | 0 | 1,580 | Cymorth Gwyddonol | | 1,679 | 0 | 1,679 |
| 1,302 | 0 | 1,302 | Cyfiawnder Troseddol | | 1,812 | 0 | 1,812 |
| | | | **Cyllidebau a Reolir gan y Cyfarwyddwr Cyllid** | | | | |
| 4,610 | 0 | 4,610 | Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | | 4,629 | 0 | 4,629 |
| 2,439 | 0 | 2,439 | Uned Cymorth Busnes | | 2,638 | 0 | 2,638 |
| 1,039 | 0 | 1,039 | Costau Fflyd | | 1,120 | 0 | 1,120 |
| 703 | 0 | 703 | Cyllid a Chaffael | | 716 | 0 | 716 |
| 0 | 0 | 0 | **Costau nas dosbarthwyd** | | 92 | 0 | 92 |
| | | | **Eitemau eithriadol -** | | | | |
| 0 | 0 | 0 | Llwythi Annormal – Ffermydd Gwynt | 6 | 187 | 0 | 187 |
| 0 | 0 | 0 | Ymgyrch Heath | 6 | 798 | 0 | 798 |
| 113,429 | 0 | 113,429 | CYFANSWM Y PRIF GWNSTABL | | 131,960 | 0 | 131,960 |
| 113,429 | 0 | 113,429 | COST GWASANAETHAU | | 131,960 | 0 | 131,960 |
| 0 | 0 | 0 | Incwm/gwariant gweithredu arall | | 0 | 0 | 0 |
| 35,913 | 0 | 35,913 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 8 | 33,674 | 0 | 33,674 |
| 0 | 0 | 0 | Trethiant ac incwm grant amhenodol | | 0 | 0 | 0 |
| 0 | (149,342) | (149,342) | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | 0 | (165,634) | (165,634) |
| 149,342 | (149,342) | 0 | (Gwarged)/diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | | 165,634 | (165,634) | 0 |
| | | 0 | Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol | | | | 0 |
| | | 271,423 | (Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | | | | (167,085) |
| | | (271,423) | Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp) | | | | 167,085 |
| | | 0 | Incwm a gwariant cynhwysfawr arall | | | | 0 |
| | | 0 | Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr | | | | 0 |

## Mantolen

| 31 Mawrth 2017 | | Nodyn | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| 0 | Eiddo, offer a chyfarpar | | 0 |
| 0 | Eiddo buddsoddi | | 0 |
| 0 | Asedau anniriaethol | | 0 |
| 0 | Asedau a ddelir i'w gwerthu | | 0 |
| 1,312,506 | Dyledwyr hirdymor | 9 | 1,182,591 |
| **1,312,506** | **Asedau hirdymor** | | **1,182,591** |
| 0 | Buddsoddiadau byrdymor | | 0 |
| 429 | Rhestrau eiddo | 10 | 459 |
| 291 | Dyledwyr byrdymor | 11 | 713 |
| 0 | Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | | 0 |
| (720) | Trosglwyddo o fewn y grŵp | | (1,172) |
| **0** | **Asedau cyfredol** | | **0** |
| 0 | Gorddrafft Banc | | 0 |
| 0 | Benthyca byrdymor | | 0 |
| (5,180) | Credydwyr byrdymor | 12 | (6,911) |
| 0 | Darpariaethau byrdymor | | 0 |
| 5,180 | Trosglwyddo o fewn y grŵp | | 6,911 |
| **0** | **Rhwymedigaethau cyfredol** | | **0** |
| 0 | Credydwyr hirdymor | | 0 |
| 0 | Benthyca hirdymor | | 0 |
| (1,312,506) | Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 20 | (1,182,591) |
| 0 | Darpariaethau hirdymor | | 0 |
| 0 | Derbyniadau grant ymlaen llaw | | 0 |
| **(1,312,506)** | **Rhwymedigaethau hirdymor** | | **(1,182,591)** |
| **0** | **Asedau/rhwymedigaethau net** | | **0** |
| 0 | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | | 0 |
| 0 | Cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy | | 0 |
| **0** | **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | | **0** |

## Cronfa Bensiwn yr Heddlu

| Prif Gwnstabl 2016/17 | | Cyfrif y Gronfa | Prif Gwnstabl 2017/18 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | | £'000 | £'000 |
| | | **Cyfraniadau derbyniadwy:** | | |
| (10,236) | | • Cyfraniadau'r cyflogwr | (10,462) | |
| (373) | | • Incwm arall | (441) | |
| (5,770) | | Cyfraniadau swyddogion | (5,855) | |
| | (16,379) | | | (16,758) |
| 78 | | Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill | (46) | |
| | | **Buddiannau taladwy:** | | |
| 23,273 | | • Pensiynau | 24,823 | |
| 7,286 | | • Cymudo a buddiannau ymddeol ar ffurf cyfandaliadau | 10,053 | |
| | 30,637 | | | 34,830 |
| | | **Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael:** | | |
| (58) | | • Trosglwyddo i gronfeydd pensiwn eraill | 0 | |
| 5 | | • Ad-dalu cyfraniadau | 5 | |
| 20 | | • Taliadau treth Cynllun yn Talu | 500 | |
| | (33) | | | 505 |
| | 14,225 | **Swm net sy'n daladwy am y flwyddyn** | | 18,577 |
| | (14,225) | **Cyfraniad ychwanegol o Gronfa'r Heddlu (par grant y Swyddfa Gartref)** | | (18,577) |
| | 0 | | | 0 |

| Prif Gwnstabl 2016/17 | Datganiad am Asedau Net | Prif Gwnstabl 2017/18 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| | **Asedau Cyfredol** | |
| 0 | Diffyg dyledus | 0 |
| 0 | | 0 |
| | | |
| | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | |
| 0 | Gwarged dyledus | 0 |
| 0 | | 0 |
| | | |
| 0 | | 0 |

Ceir manylion ynglŷn â sut y gweinyddir Cronfa Bensiwn yr Heddlu yn Adran Polisïau Cyfrifyddu'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1. Polisïau cyfrifyddu

**Egwyddorion Cyffredinol**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2018. Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 a Chod Ymarfer Adrodd 2017/18 yr Heddlu yn bennaf, wedi'u hategu gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu gan ailbrisio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

**Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Gwallau**

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn y dyfodol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd yn y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn peri addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fydd eu hangen yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol neu pan fydd y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y bydd newidiadau i bolisïau cyfrifyddu. Pan fydd newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Caiff gwallau perthnasol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymaradwy ar gyfer y cyfnod blaenorol.

**Croniadau Incwm a Gwariant**

Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, ac nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud. Yn benodol:

- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) fel gwariant pan fydd y gwasanaethau yn cael eu derbyn yn hytrach na phan fydd y taliadau yn cael eu gwneud.
- Pan fydd refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes unrhyw arian parod wedi cael ei dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Pan na chaiff dyledion eu setlo o bosibl, mae balans dyledwyr yn cael ei leihau a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na allai gael ei gasglu o bosibl.

**Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth**
Codir am gostau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar segmentau gwasanaethau yn unol â threfniadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

**Eitemau Eithriadol**
Pan fydd eitemau o incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'r swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Prif Gwnstabl.

**Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**
Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y caiff y Datganiad o Gyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiadau:

- Y rhai hynny sy'n rhoi tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, datgelir natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig yn y nodiadau.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi cyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon.

**Offerynnau Ariannol**

<u>Rhwymedigaethau Ariannol</u>
Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio.

<u>Asedau Ariannol</u>
Mae'r asedau ariannol a ddelir gan y Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn yn asedau ariannol sydd â thaliadau sefydlog neu y gellir eu pennu ac nad ydynt wedi'u rhestru mewn marchnad weithredol.

<u>Trosi arian cyfred</u>
Lle mae'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i drafodyn wedi'i ddynodi mewn arian tramor, caiff y trafodyn ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad roedd y trafodyn yn weithredol.

**Rhestrau eiddo**
Mae rhestrau eiddo yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar bris cost bresennol. Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 2 yn nodi y dylai Rhestrau eiddo gael eu mesur ar gost neu werth gwireddadwy net pa bynnag yw'r isaf. Felly, nid yw'r polisi yn cydymffurfio ag IAS 2 ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol.

**Trefniadau Cydweithredol**
Cyhoeddodd CIPFA ganllawiau newydd ar "Accounting for Collaboration" sy'n gymwys i'r flwyddyn ariannol 2014/15 ymlaen. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl asesu'r holl weithgarwch cydweithredol a chategoreiddio'r rhain yn gyd-ymgyrchoedd neu'n gyd-fentrau a chyfrif am eu cyfran deg o wariant, incwm,

asedau a rhwymedigaethau yn eu cyfrifon unigol. Ceir rhagor o fanylion o dan y nodyn Trefniadau Cydweithredol.

**Buddiannau cyflogeion**

Buddiannau sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddiannau byrdymor i gyflogeion yw'r buddiannau hynny a fydd yn cael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb oherwydd salwch â thâl, taliadau bonws a buddiannau anariannol (e.e. ceir) i gyflogeion cyfredol ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau (gan gynnwys amser i ffwrdd yn lle tâl ac absenoldeb hyblyg) a enillir gan gyflogeion ond nas cymerir cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar gyfraddau cyflog sy'n gymwys yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cymryd y buddiant. Codir y croniad ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel y bydd buddiannau gwyliau yn cael eu codi i'r cyfrif refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb oherwydd gwyliau yn digwydd ynddi.

Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol.

Pan fydd buddiannau terfynu yn cynnwys pensiynau ychwanegol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol mai'r swm sy'n daladwy gan y Grŵp i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen neilltuo arian i ac o'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn er mwyn dileu'r dyledion a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu ar ffurf pensiwn ychwanegol a rhoi dyledion ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw gyfryw symiau sy'n daladwy ond nas telir ar ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Mae swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yn cael dewis bod yn aelod o un o blith dau gynllun pensiwn ar wahân sy'n berthnasol iddynt:

- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu, a weinyddir drwy Gronfa Bensiwn i'r Heddlu
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn rhoi buddiannau diffiniedig i'w haelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd fel cyflogeion a oedd yn gweithio i'r Grŵp.

Mae'r cynllun Pensiwn hwn i Swyddogion yr Heddlu "heb ei ariannu" sy'n golygu na chaiff unrhyw asedau buddsoddi eu cronni i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol, ac felly ni chaiff unrhyw ddarpariaeth i fodloni'r rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol ei chynnwys yn y fantolen. Mae rhwymedigaethau Cynllun Llywodraeth Leol y gellir eu priodoli i'r Grŵp wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o daliadau yn y dyfodol a gaiff eu gwneud mewn perthynas â buddiannau ymddeol a enillir hyd yma gan gyflogeion, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion ac ati ac amcanestyniadau o enillion ar gyfer cyflogeion presennol.

Buddiannau yn ôl Disgresiwn
Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bwerau cyfyngedig hefyd i dalu buddiannau ymddeol yn ôl disgresiwn yn achos ymddeol yn gynnar. Bydd unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarndal i unrhyw aelod o staff yn cronni yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i wneud y dyfarndaliad a chyfrifir amdanynt drwy ddefnyddio'r un polisïau ag a gymhwysir at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Prydlesau**

**Y Prif Gwnstabl fel Prydlesai (Prydlesau Gweithredu)**
Caiff rhenti a delir o dan brydlesau gweithredu eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul y gwasanaethau sy'n cael budd o'r defnydd o eiddo, offer neu gyfarpar ar brydles. Codir taliadau ar sail llinell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (h.y. lle mae cyfnod di-rent ar ddechrau'r brydles).

**Treth ar Werth (TAW)**
Mae TAW sy'n daladwy yn cael ei chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'r Grŵp yn gallu ei hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nid yw TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i chynnwys mewn incwm.

## 2. Addasiadau Cyfnod Blaenorol

Addasu Strwythurau Llywodraethu a Threfniadau Adrodd Heddlu Dyfed-Powys
Yn ystod 2017/18, mae portffolios Grŵp y Prif Swyddogion a'r Uwch Dîm Rheoli wedi cael eu diwygio ac mae hyn wedi arwain at rai newidiadau i strwythurau adrodd mewnol y Prif Gwnstabl. Mae'r Dadansoddiad o'r Heddlu yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yn seiliedig ar y strwythur adrodd felly mae angen i'r newidiadau gael eu hadlewyrchu yn y Datganiad hwn ar gyfer 2017/18. Oherwydd arwyddocâd y newidiadau hyn, mae'n ofynnol i ffigurau'r flwyddyn flaenorol 2016/17 gael eu hailddatgan at ddibenion cymharu. Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol yn crynhoi'r newidiadau hyn.

Ailstrwythuro
Yn ystod y flwyddyn mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyfuno'r tair rôl Cyfarwyddwr flaenorol yn un rôl Cyfarwyddwr Cyllid, ac mae wedi ailddosbarthu cyfrifoldebau'r canlynol:

- y cyn-Gyfarwyddwr Adnoddau (Colofn A)
- y cyn-Gyfarwyddwr Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth (Colofn B)

ymhlith tair swydd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

Newidiadau i'r Trefniadau Adrodd
Mae'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant hefyd wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r trefniadau adrodd diweddaraf. Mae'r diwygiadau hyn hefyd yn rhoi dadansoddiad mwy manwl ac ystyrlon o dan Benawdau Cyfarwyddiaethau. Y prif newidiadau yw:

- Mae Cyfathrebu Corfforaethol a fu'n uniongyrchol atebol i'r Prif Gwnstabl gynt yn atebol i'r Dirprwy Brif Gwnstabl bellach (Colofn C)
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Gyllid wedi cael ei rhannu'n Adrannau (Colofn D)

- **Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am Ystadau oddi wrth y Prif Gwnstabl (Adnoddau) i'r Comisiynydd a mân newidiadau eraill (Colofnau A ac E)**

| | | Ailstrwythuro | | Newidiadau i'r Trefniadau Adrodd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cost Gwasanaet-hau 2016/17 (blaenorol) | Adnoddau (Colofn A) | Cyfreithiol a Chydymffur fiaeth (Colofn B) | Cyllideb y Prif Gwnstabl (Colofn C) | Cyllid Wedi'i Rannu (Colofn D) | Arall (Colofn E) | Cost Gwasanaethau 2016/17 (wedi'i hailddatgan) |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau Comisiynu a Swyddfa | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ystadau | 0 | 3,900 | 0 | 0 | 0 | (3,900) | 0 |
| Swyddfa'r Prif Gwnstabl | 2,289 | 0 | 0 | (813) | 0 | 0 | 1,476 |
| Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | 6,694 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 6,708 |
| Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol/Lleol a Ariennir yn Allanol | 6,460 | 0 | 0 | 0 | 0 | (2) | 6,458 |
| Cymdeithasau Staff | 212 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 213 |
| Cyfarwyddiaeth Adnoddau | 9,516 | (9,516) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Chydymffurfio | 2,085 | 0 | (2,085) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Pobl | 0 | 2,628 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,628 |
| Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | 0 | 456 | 2,066 | 0 | 0 | 0 | 2,522 |
| Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu | 0 | 0 | 0 | 816 | 0 | 0 | 816 |
| Safonau Proffesiynol | 1,134 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1,135 |
| Plismona Lleol | 53,996 | 63 | 0 | 0 | 0 | 0 | 54,059 |
| Ymchwiliadau | 25,710 | 30 | 0 | 0 | 0 | 1 | 25,741 |
| Cymorth Gwyddonol | 1,578 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1,580 |
| Cyfiawnder Troseddol | 1,310 | 0 | 0 | 0 | 0 | (8) | 1,302 |
| Cyfarwyddiaeth Cyllid | 6,345 | 0 | 0 | 0 | (6,345) | 0 | 0 |
| Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | 0 | 0 | 0 | 0 | 4,610 | 0 | 4,610 |
| Uned Cymorth Busnes | 0 | 2,439 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,439 |
| Costau Fflyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,039 | 0 | 1,039 |
| Cyllid a Chaffael | 0 | 0 | 0 | 0 | 703 | 0 | 703 |
| Eitemau eithriadol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **COST GWASANAETHAU** | **117,329** | **0** | **(19)** | **3** | **7** | **(3,891)** | **113,429** |

Dangosir effaith y newidiadau uchod ar Ddatganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant 2016/17 isod:

Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant y Grŵp)

| 2016/17 (blaenorol) | | | | 2016/17 (Wedi'i Ailddatgan) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| 0 | 0 | 0 | Costau Comisiynu a Swyddfa | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Ystadau | 0 | 0 | 0 |
| 2,289 | 0 | 2,289 | Swyddfa'r Prif Gwnstabl | 1,476 | 0 | 1,476 |
| 6,694 | 0 | 6,694 | Cyllidebau Corfforaethol a Reolir yn Ganolog | 6,708 | 0 | 6,708 |
| 6,460 | 0 | 6,460 | Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol/Lleol a Ariennir yn Allanol | 6,458 | 0 | 6,458 |
| 212 | 0 | 212 | Cymdeithasau Staff | 213 | 0 | 213 |
| 9,516 | 0 | 9,516 | Cyfarwyddiaeth Adnoddau | 0 | 0 | 0 |
| 2,085 | 0 | 2,085 | Cyfarwyddiaeth Gyfreithiol a Chydymffurfio | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Gwasanaethau Pobl | 2,628 | 0 | 2,628 |
| 0 | 0 | 0 | Cyfreithiol, Gwybodaeth, Effeithlonrwydd, Iechyd a Diogelwch | 2,522 | 0 | 2,522 |
| 0 | 0 | 0 | Ymddeoliadau, Ymgyrchoedd Mawr a Chyfathrebu | 816 | 0 | 816 |
| 1,134 | 0 | 1,134 | Safonau Proffesiynol | 1,135 | 0 | 1,135 |
| 53,996 | 0 | 53,996 | Plismona Lleol | 54,059 | 0 | 54,059 |
| 25,710 | 0 | 25,710 | Ymchwiliadau | 25,741 | 0 | 25,741 |
| 1,578 | 0 | 1,578 | Cymorth Gwyddonol | 1,580 | 0 | 1,580 |
| 1,310 | 0 | 1,310 | Cyfiawnder Troseddol | 1,302 | 0 | 1,302 |
| 6,345 | 0 | 6,345 | Cyfarwyddiaeth Cyllid | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Systemau Gwybodaeth a Thechnoleg | 4,610 | 0 | 4,610 |
| 0 | 0 | 0 | Uned Cymorth Busnes | 2,439 | 0 | 2,439 |
| 0 | 0 | 0 | Costau Fflyd | 1,039 | 0 | 1,039 |
| 0 | 0 | 0 | Cyllid a Chaffael | 703 | 0 | 703 |
| 0 | 0 | 0 | Eitemau eithriadol | 0 | 0 | 0 |
| 117,329 | 0 | 117,329 | COST NET GWASANAETHAU | 113,429 | 0 | 113,429 |

## 3. Safonau Cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol o dan safon gyfrifyddu newydd sydd wedi cael ei chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto o dan y Cod. Bydd y newidiadau canlynol yn ofynnol o 1 Ebrill 2018:

- IFRS 9 *Offerynnau Ariannol*
- IFRS 15 *Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid* gan gynnwys diwygiadau i IFRS 15 *Egluro IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid*
- Diwygiadau i IAS 12 *Trethi Incwm*: Cydnabod Asedau Treth Gohiriedig ar gyfer Colledion Nas Gwireddwyd
- Diwygiadau i IAS 7 *Datganiad Llifau Arian:* Menter Datgelu.

Nid yw effaith y newidiadau uchod ar y Datganiadau Ariannol yn hysbys. Fodd bynnag, yn y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19, caiff effaith y newidiadau ei hasesu ac os bydd angen, caiff y ffigurau cymaradwy eu hailddatgan.

## 4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu

<u>Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu - Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd</u>

Mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill a'r Swyddfa Gartref yn wynebu nifer o hawliadau a gyflwynwyd yn eu herbyn yn Nhribiwnlys Cyflogaeth Llundain Ganolog. Mae'r hawliau yn ymwneud â gwahaniaethu anghyfreithlon honedig sy'n codi o'r Darpariaethau Trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015.

Mae hawliadau gwahaniaethu anghyfreithlon hefyd wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r newidiadau i reoliadau Pensiwn y Farnwriaeth a Diffoddwyr Tân ac yn 2016/17 gwrandawyd ar yr hawliadau hyn yn y Tribiwnlys Cyflogaeth.

Yn 2017/18, gwrandawyd hawliadau Barnwriaeth a Diffoddwyr Tân yn y Tribiwnlys Apêl. O ganlyniad i hyn, mae ymatebwyr yn apelio yn erbyn dyfarniadau'r Tribiwnlys Apêl. Yn achos y Diffoddwyr Tân, mae'r hawlwyr hefyd yn apelio yn erbyn agweddau ar y dyfarniad. Efallai y bydd canlyniad yr apeliadau eraill hyn yn dylanwadu ar ganlyniad hawliadau'r Heddlu. Mae'r Tribiwnlys wedi cytuno i ohirio gwrandawiad yr Heddlu ac mae'r Swyddfa Gartref wedi gwneud cais i'r gohiriad gael ei estyn yng ngoleuni apeliadau eraill. Os bydd hawliadau'r Heddlu yn llwyddiannus, nid yw'n amlwg pa rwymedi a gâi ei gymhwyso, p'un a fyddai hyn yn gofyn am ragor o ddeddfwriaeth ac ar bwy y byddai'n effeithio.

O ystyried bod hawliadau'r Farnwriaeth a'r Diffoddwyr Tân yn destun apeliadau eraill ac nid yw hawliadau'r Heddlu wedi cael eu gwrando eto, a'r ansicrwydd ynglŷn â rhwymedi a faint a fynnir ar hyn o bryd, nid oes modd rhoi amcangyfrif o'r effaith ariannol os bydd yr hawliadau'n llwyddiannus yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Felly, aseswyd nad oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw rwymedigaeth ar ddyddiad y Fantolen

ac am y rhesymau hyn, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2017/18.

## 5. Rhagdybiaethau a wnaed ynglŷn â ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif yn y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y Prif Gwnstabl ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2018 y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os bydd y canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth pensiynau | Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac enillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Penodir cwmni o actwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. | Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth pensiynau net. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.1% yn y tâl a ddyfernir ar gyfer cynllun pensiwn swyddogion yr heddlu yn arwain at gynnydd o £1.152 miliwn i'r rhwymedigaeth pensiwn. |

## 6. Eitemau perthnasol o incwm a gwariant

<u>Llwythi Annormal – Ffermydd Gwynt (Gwariant Gros 187k)</u>

Rhwng mis Mehefin 2017 a mis Tachwedd 2017, bu Heddlu Dyfed-Powys yn gyfrifol am bedwar gwasanaeth hebrwng ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt mawr yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Roedd pob gwasanaeth yn gofyn am ymrwymiadau sylweddol dros wythnosau lawer gan yr Uned Plismona Ffyrdd. Rhoddwyd cytundebau ffurfiol ar waith a oedd yn cynnwys y trefniadau ariannol ar gyfer codi tâl am wasanaethau plismona arbennig.

Dylid nodi, yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, nad yw'r ffigur Gwariant Gros a ddangosir yn erbyn y pennawd 'Eitemau Eithriadol (Llwythi Annormal – Ffermydd Gwynt)' yn cynnwys cost Cyflogau Sylfaenol Swyddogion yn ystod y gwaith hwn. Adlewyrchir y costau hyn yn erbyn y penawdau gwasanaeth.

<u>Ymgyrch Heath (Gwariant Gros £798k)</u>

Ymgyrch Heath oedd enw gweithredol ymchwiliad i dân difrifol ar Fferm Pointyn, Llangamarch, Powys ar 30 Hydref 2017. Yn sgil y tân trychinebus hwn bu farw tad a phump o blant. Cyflwynwyd proses Adnabod Dioddefwyr Trychineb a oedd yn cynnwys staff o Heddluoedd Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent. Cymerodd chwe wythnos i archwilio'r safle ac adfer y cyrff. Mae'r heddlu yn dal i ymchwilio i'r hyn a achosodd y tân ac mae cwêst ar droed.

## 7. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Dyfarniad Cyflog Staff yr Heddlu

Ym mis Mai 2018, gwnaeth aelodau UNSAIN, Unite a GMB bleidleisio'n unfrydol o blaid derbyn cynnig cyflog 2017. Mae'r dyfarniad cyflog yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Cynnydd o 1.0% ar bob pwynt cyflog wedi'i ôl-ddyddio i 1 Medi 2017 (cost amcangyfrifedig £156k);
- Taliad anghyfunol gwerth 1.0% o gyflog sylfaenol ar bob pwynt cyflog fel cyfandaliad untro (cost amcangyfrifedig £215k);

Telir y dyfarniad cyflog ym mis Mai a chaiff aelodau 7 mis o ôl-gyflog o ran y cynnydd o 1% yn eu cyflog sylfaenol o 1 Medi 2017.

Mae costau amcangyfrifedig y Dyfarniad Cyflog wedi'u dwyn ynghyd yn 2017/18 a'u cynnwys yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yn erbyn y penawdau gwasanaeth unigol.

Ystyriwyd hyn yn Ddigwyddiad ar ôl Dyddiad y Fantolen am na chafodd y cynnig cyflog ei dderbyn yn ffurfiol tan ar ôl 31 Mawrth 2018.

## 8. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi

Mae'r llinell hon yn cynnwys eitemau corfforaethol o incwm a gwariant sy'n deillio o offerynnau ariannol a thrafodion tebyg sy'n cynnwys llog.

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 0 | Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg a godir | 0 |
| 35,913 | Cost llog pensiynau a'r enillion disgwyliedig ar asedau pensiynau | 33,674 |
| 0 | Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg | 0 |
| 0 | Incwm a gwariant Eiddo Buddsoddi | 0 |
| 0 | Grantiau cyfalaf penodol sydd ar gael yn ystod y flwyddyn | 0 |
| **35,913** | **Cyfanswm** | **33,674** |

## 9. Offerynnau Ariannol

Offeryn ariannol yw unrhyw gontract sy'n rhoi ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn rhai cyfnewid, megis y rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn offerynnau ariannol.

Rhwymedigaethau Ariannol

Rhwymedigaeth ariannol yw rhwymedigaeth i drosglwyddo buddiannau economaidd a reolir gan y Prif Gwnstabl, a gall fod ar ffurf rhwymedigaeth gytundebol i roi arian parod neu asedau ariannol neu rwymedigaeth i gyfnewid asedau a rhwymedigaeth ariannol ag endid arall sy'n anffafriol o bosibl i'r Prif Gwnstabl.
Caiff rhwymedigaethau ariannol nad ydynt yn ddeilliannol a ddelir gan y Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio ac maent yn cynnwys:

- Symiau Masnach Taladwy (Credydwyr),
- Rhwymedigaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig.

Asedau Ariannol

Ased Ariannol yw hawl i fuddiannau economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Prif Gwnstabl sydd ar ffurf arian parod neu offerynnau eraill neu hawl gytundebol i gael arian parod neu ased ariannol arall. Mae'r asedau ariannol a ddelir gan y Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn yn cael eu dal o dan y dosbarthiad canlynol:

- benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy (asedau ariannol sydd â thaliadau sefydlog neu y gellir eu pennu ac nad ydynt wedi'u rhestru mewn marchnad weithredol) gan gynnwys:
- Symiau Masnach Derbyniadwy (Dyledwyr)

Offerynnau Ariannol – Balansau

Dadansoddir yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol yn y Fantolen yn ôl y categorïau canlynol:

| | Hirdymor | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Symiau Masnach Taladwy (Credydwyr)* | 0 | 0 | (2,042) | (2,782) |
| Rhwymedigaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig** | (1,312,684) | (1,182,188) | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **(1,312,684)** | **(1,182,188)** | **(2,042)** | **(2,782)** |
| ***Benthyciadau a symiau derbyniadwy:*** | | | | |
| Symiau Masnach Derbyniadwy (Dyledwyr)* | 0 | 0 | 291 | 713 |
| **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **0** | **0** | **291** | **713** |

*Bydd trosglwyddiad o fewn y grŵp yn digwydd o Gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd yn seiliedig ar y sefyllfa asedau cyfredol net gan na all y Prif Gwnstabl ddal balansau arian parod.

**Bydd trosglwyddiad o fewn y grŵp yn digwydd o Gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd ar gyfer y rhwymedigaeth pensiynau sy'n gysylltiedig â staff y Prif Gwnstabl.

Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion

Nid oes unrhyw enillion na cholledion wedi'u cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol.

Gwerthoedd Teg

Mae rhwymedigaethau ariannol hirdymor y Prif Gwnstabl yn cael eu cario yn y Fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio.

O dan God Ymarfer 2010 mae'n ofynnol i Werthoedd Teg yr asedau a'r rhwymedigaethau hyn gael eu datgelu at ddibenion cymharu. Diffinnir Gwerth Teg yn Safon Adrodd Ariannol 26 (FRS 26) fel y swm y gellid cyfnewid ased amdano, neu y

gellid setlo rhwymedigaeth, rhwng partïon parod gwybodus mewn trafodyn hyd braich. Gwerth teg offeryn ariannol ar adeg ei gydnabod yn gychwynnol yw prif y trafodyn fel arfer.

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng lefel 1 a 2 yn ystod y flwyddyn.

Ni fu unrhyw newid yn y dechneg brisio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

| Swm Cario | Gwerth teg | | Swm Cario | Gwerth teg |
|---|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2017 | | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2018 |
| £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| | | ***Rhwymedigaethau Ariannol:*** | | |
| (1,312,684) | (1,312,684) | Rhwymedigaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig | (1,182,188) | (1,182,188) |
| 271,424 | 271,424 | (Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | (167,086) | (167,086) |
| (2,042) | (2,042) | Symiau Masnach Taladwy (Credydwyr) | (2,782) | (2,782) |
| **(1,043,302)** | **(1,043,302)** | **Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol** | **(1,352,056)** | **(1,352,056)** |
| | | ***Asedau Ariannol:*** | | |
| 291 | 291 | Symiau Masnach Derbyniadwy (Dyledwyr) | 713 | 713 |
| **291** | **291** | **Cyfanswm yr Asedau Ariannol** | **713** | **713** |

Rhwymedigaethau Ariannol

Mae'r rhwymedigaeth sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig wedi cael ei hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati. Felly, bydd gwerth teg y rhwymedigaeth hon ar ddyddiad y Fantolen yr un fath â'r swm cario.

Ar gyfer symiau masnach taladwy, defnyddiwyd y gwerth cario fel brasamcan rhesymol o werth teg, felly bydd gwerth teg ar ddyddiad y Fantolen yr un fath â'r swm cario.

Asedau Ariannol

Ar gyfer symiau masnach derbyniadwy, defnyddiwyd y gwerth cario fel brasamcan rhesymol o werth teg felly bydd gwerth teg ar ddyddiad y Fantolen yr un fath â'r swm cario.

## 10. Rhestrau eiddo

| | Ffrancio a storfeydd o nwyddau llfrau | | Deunyddiau cynnal a chadw'r fflyd | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans sy'n weddill ar ddechrau'r flwyddyn:** | **292** | **355** | **76** | **74** | **368** | **429** |
| Pryniannau | 392 | 438 | 196 | 175 | 588 | 613 |
| Wedi'i gydnabod fel traul yn ystod y flwyddyn | (329) | (399) | (198) | (180) | (527) | (579) |
| Balansau wedi'u dileu | 0 | (5) | 0 | 1 | 0 | (4) |
| Gwrthdroi symiau a ddilëwyd mewn blwyddyn flaenorol/addasiad pris cyfartalog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn** | **355** | **389** | **74** | **70** | **429** | **459** |

## 11. Dyledwyr Byrdymor

| 31 Mawrth 2017 | | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 0 | Cyrff llywodraeth ganolog | 0 |
| 0 | Awdurdodau lleol | 0 |
| 0 | Cyrff Heddlu Eraill | 0 |
| 1 | Cyrff Cyhoeddus Eraill | 0 |
| 290 | Cwmnïau Cyfyngedig | 704 |
| 0 | Endidau ac unigolion eraill | 9 |
| 0 | Hawliadau treth ar werth | 0 |
| **291** | **Cyfanswm** | **713** |

## 12. Credydwyr byrdymor

| 31 Mawrth 2017 | | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 73 | Cyrff llywodraeth ganolog | 61 |
| 622 | Awdurdodau lleol | 587 |
| 2,424 | Cyrff Heddlu Eraill | 3,365 |
| 19 | Cyrff Cyhoeddus Eraill | 115 |
| 1,110 | Cwmnïau Cyfyngedig | 1,219 |
| 932 | Endidau ac unigolion eraill | 1,564 |
| **5,180** | **Cyfanswm** | **6,911** |

## 13. Gwasanaethau asiantaeth

Gwasanaethau pensiwn a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Gweinyddir cynllun pensiwn Llywodraeth Leol a chynllun pensiwn yr Heddlu gan y cyngor, sy'n codi ffi flynyddol yn seiliedig ar nifer yr aelodau gweithredol a gohiriedig, yn ogystal â'r pensiynwyr gwirioneddol. Codir ffi hefyd am waith cynnal a'r datganiadau

blynyddol o fuddiannau.

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 81 | Gwariant yr aed iddo wrth weinyddu Cynllun Pensiwn yr Heddlu a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 85 |
| **81** | **Gwarged net sy'n codi ar y trefniadau asiantaeth** | **85** |

## 14. Trefniadau Cydweithredol

Mae gan heddluoedd yng Nghymru hanes llwyddiannus, hir o gydweithredu i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys y rhai o dan gylch gwaith Cyd-bwyllgor Awdurdodau Heddlu Cymru gynt. Caiff cydweithredu yn y dyfodol ei sbarduno gan yr angen i fodloni'r Gofyniad Plismona Strategol a chan ganlyniadau'r Asesiad Strategol Rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth deheuol Cymru.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu pob Heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y Gofyniad Plismona Strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, bydd yn ceisio cydweithredu â'r Comisiynwyr a'r heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Caiff cytundebau o'r fath eu rheoleiddio gan Adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae'r gwasanaethau cydweithredol a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau llywodraethu diwygiedig i'r Comisiynwyr a'r Heddluoedd. Ystyrir y rhain yn 'Gyllidebau Cyfunol' i bob diben, gyda chytundebau ar gyfer Cyfraniadau Cyllido yn cael eu gwneud a'u hamrywio o bryd i'w gilydd, a rhai grantiau penodol gan y Llywodraeth. Mae'r cyllidebau cyfunol yn cael eu cynnal gan Gomisiynydd De Cymru a Heddlu De Cymru i bob diben ar ran y pedwar Heddlu yng Nghymru.

Yn 2017/18 cafodd Tîm Cydweithredu Cymru Gyfan ei sefydlu ar sail fyrdymor er mwyn cydlynu gweithgareddau presennol a nodi cyfleoedd newydd i gydweithredu ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru. Y Dirprwy Brif Gwnstabl sy'n arwain y tîm a chaiff ei ariannu ar sail cyfraniadau cytûn gan bob heddlu yng Nghymru. Cyfanswm costau'r tîm yn 2017/18 oedd £243k (2016-17 - dim) a chyfraniad Dyfed-Powys at y costau hyn oedd £61.5k yn 2017/18 (2017/17 - dim).

Mae'r tabl cyntaf isod yn rhoi crynodeb o'r Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer prif weithgareddau'r unedau cydweithredol yn seiliedig ar yr arian y mae pob Heddlu yn ei gyfrannu at y trefniant cydweithredol.

Yn y polisïau cyfrifyddu o dan drefniadau ar y cyd, ceir diffiniadau ac esboniad o'r gofynion cyfrifyddu newydd ar gyfer cyd-ymgyrchoedd. Mae'r olaf ohonynt yn cynnwys cyfran yr incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau. O ganlyniad i ofynion IFRS 11, mae'r ail dabl isod yn darparu gwybodaeth ddiwygiedig mewn perthynas â Heddlu Dyfed-Powys a heddluoedd eraill er mwyn dangos y cyfansymiau ar gyfer pob cyd-ymgyrch.

O ganlyniad i ofynion IFRS 11, mae gwariant gros yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant wedi'i gynyddu £909m ac mae incwm/grantiau wedi'u cynyddu £866m, sef cynnydd o £43m mewn gwariant net. Mae'r cynnydd net hwn wedi'i

wrthdroi yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn heb unrhyw effaith ar falans Cronfa'r Heddlu.

Mae asedau, dyledwyr a chredydwyr mewn perthynas â'r trefniadau wedi parhau i gael eu nodi ym mantolenni heddluoedd ar sail eu perthnasedd.

** Mae Heddlu Gogledd Cymru yn seilio ei gostau Swyddi Diogelwch Penodol ar incwm a gwariant yn hytrach na dyraniad ar sail poblogaeth Cymru. Felly ni chaiff ei incwm a'i wariant ar gyfer Swyddi Diogelwch penodol eu cynnwys yn y tablau isod. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Tasglu Rhanbarthol, sy'n gweithredu yn Heddluoedd y Rhanbarth Deheuol. O ran yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu at Ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.*

Dangosir y Datganiadau o Wariant ac Incwm ar gyfer y prif drefniadau cydweithredol ar y dudalen ganlynol:

| **2017/18** | **Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth** | **Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol** | **Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol** | **Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol** | **Tasglu Rhanbarthol** | **Uned Arfau Tanio ar y Cyd** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad y Gwasanaeth** | **Plismona Cenedlaethol** | **Plismona Cenedlaethol** | **Plismona Cenedlaethol** | **Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio** | **Cudd-wybodaeth** | **Ymgyrchoedd Arbenigol** | |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant ar Gyflogau | 5,574 | 425 | 4,356 | 4,793 | 1,554 | 11,292 | **27,994** |
| Gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau | 1,142 | 30 | 285 | 1,201 | 411 | 1,568 | **4,637** |
| **Gwariant Gros** | **6,716** | **455** | **4,641** | **5,994** | **1,965** | **12,860** | **32,631** |
| Incwm Grant Penodol | (6,772) | (455) | (4,641) | (4,320) | (500) | (1,473) | **(18,161)** |
| Incwm | 56 | 0 | 0 | (43) | (2) | (163) | **(152)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(6,716)** | **(455)** | **(4,641)** | **(4,363)** | **(502)** | **(1,636)** | **(18,313)** |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg - i'w ariannu o Gyfraniadau'r Heddlu fel a ganlyn:** | **0** | **0** | **0** | **1,631** | **1,463** | **11,224** | **14,318** |
| <u>Cyfraniadau'r Heddlu (Net):</u> | | | | | | | |
| Dyfed-Powys | 0 | 0 | 0 | (348) | (298) | (3,457) | **(4,103)** |
| Gwent | 0 | 0 | 0 | (394) | (380) | (2,594) | **(3,368)** |
| Gogledd Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Cymru | 0 | 0 | 0 | (889) | (785) | (5,173) | **(6,847)** |
| **Cyfanswm Cyfraniadau'r Heddlu** | **0** | **0** | **0** | **(1,631)** | **(1,463)** | **(11,224)** | **(14,318)** |

## Mae cyfraniad pob Heddlu tuag at Wariant ac Incwm fel a ganlyn:

| 2017/18 | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth | Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol | Diogelwch Gwrthderfysgaeth Porthladdoedd/ Penodol | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol | Tasglu Rhanbarthol | Uned Arfau Tanio ar y Cyd | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthiad y Gwasanaeth a'r sail ddosrannu y cytunwyd arni | Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) | Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) | Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) | Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) | Cudd-wybodaeth (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – | Ymgyrchoedd Arbenigol (Cyfraniad Ariannol y Cytunwyd arno – darpariaeth | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Dyfed-Powys | 1,113 | 75 | 472 | 1,279 | 400 | 3,998 | 7,337 |
| Gwent | 1,260 | 85 | 535 | 1,449 | 510 | 3,067 | 6,906 |
| Gogledd Cymru | 1,501 | 102 | 2,428 | Nodyn 1 | Nodyn 1 | Nodyn 1 | 4,031 |
| De Cymru | 2,842 | 193 | 1,206 | 3,266 | 1,055 | 5,795 | 14,357 |
| **Gwariant Gros** | **6,716** | **455** | **4,641** | **5,994** | **1,965** | **12,860** | **32,631** |
| Dyfed-Powys | (1,113) | (75) | (472) | (931) | (102) | (509) | (3,202) |
| Gwent | (1,260) | (85) | (535) | (1,054) | (130) | (390) | (3,454) |
| Gogledd Cymru | (1,501) | (102) | (2,428) | Nodyn 1 | Nodyn 1 | Nodyn 1 | (4,031) |
| De Cymru | (2,842) | (193) | (1,206) | (2,378) | (270) | (737) | (7,626) |
| **Cyfanswm yr Incwm a Grantiau** | **(6,716)** | **(455)** | **(4,641)** | **(4,363)** | **(502)** | **(1,636)** | **(18,313)** |

## 15. Cydnabyddiaeth swyddogion

Uwch gyflogeion - Mae'r gydnabyddiaeth a delir i uwch gyflogeion y Prif Gwnstabl fel a ganlyn:

| | Blwyddyn | Nod yn | Cyflog (gan gynnwys ffioedd a lwfansau) | Buddiannau mewn da - ceir prydles | Buddiannau mewn da - treuliau adleoli | Cyflog yn lle Rhybudd / Taliad Ymadael | Cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn | Cyfraniadau pensiwn | Cyfanswm y gydnabyddiaeth gan gynnwys cyfraniadau pensiwn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Nodyn 1 | Nodyn 2 | | | | |
| | | | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Prif Gwnstabl | 2017/18 | | 139,487 | 0 | 0 | 0 | 139,487 | 32,939 | 172,426 |
| | 2016/17 | 3 | 39,894 | 757 | 0 | 0 | 40,651 | 9,420 | 50,071 |
| Prif Gwnstabl | 2017/18 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 2016/17 | 4 | 91,537 | 2,973 | 0 | 0 | 94,510 | 0 | 94,510 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | 2017/18 | | 120,441 | 0 | 0 | 0 | 120,441 | 27,577 | 148,018 |
| | 2016/17 | 5 | 10,988 | 217 | 0 | 0 | 11,24 | 2,285 | 13,490 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | 2017/18 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 2016/17 | 7 | 67,927 | 0 | 0 | 0 | 67,927 | 15,291 | 83,218 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro | 2017/18 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 2016/17 | 8 | 105,041 | 5,591 | 895 | 0 | 111,527 | 24,774 | 136,301 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol | 2017/18 | 9 | 113,699 | 4,839 | 0 | 0 | 118,538 | 26,811 | 145,349 |
| | 2016/17 | 10 | 10,162 | 574 | 0 | 0 | 10,736 | 2,460 | 13,196 |
| Dirprwy Brif Gwnstabl - Heddlu Gwent | 2017/18 | 11 | 42,684 | 832 | 0 | 0 | 43,516 | 9,386 | 52,902 |
| | 2016/17 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A) | 2017/18 | 12 | 34,347 | 697 | 0 | 0 | 35,044 | 8,377 | 43,421 |
| | 2016/17 | | 103,422 | 3,706 | 0 | 0 | 107,128 | 25,028 | 132,156 |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) | 2017/18 | 13 | 41,007 | 0 | 0 | 0 | 41,007 | 8,234 | 49,241 |
| | 2016/17 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfarwyddwr Cyllid/ Prif Swyddog | 2017/18 | | 75,121 | 0 | 0 | 0 | 75,121 | 10,141 | 85,262 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid y Prif Gwnstabl | 2016/17 | | 69,903 | 0 | 0 | 0 | 69,903 | 8,109 | 78,012 |
| Cyfarwyddwr Adnoddau | **2017/18** | **14** | **41,891** | **0** | **0** | **16,154** | **58,045** | 5,655 | **63,700** |
| | 2016/17 | | 69,903 | 0 | 0 | 0 | 69,903 | 8,109 | 78,012 |
| Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth | **2017/18** | | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | 2016/17 | 15 | 73,934 | 0 | 0 | 95,301 | 169,235 | 0 | 169,235 |
| **Cyfanswm 2017/18** | | | **608,677** | **6,368** | **0** | **16,154** | **631,199** | **129,120** | **760,319** |
| **Cyfanswm 2016/17** | | | **642,711** | **13,818** | **895** | **95,301** | **752,725** | **95,476** | **848,201** |

Nodyn 1: I Darperir cerbydau ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl ond yn 2017/18 nid oedd hyn yn cael ei ddosbarthu'n fudd mewn da mwyach, gan fod y swyddogion hyn ar alwad drwy'r amser. Noda Adran 248 o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003: "This section applies where a) an emergency vehicle is made available to a person employed in an emergency service for the person's private use and b) the terms on which it is made available prohibit its private use otherwise than when the person is on call or engaged in on-call commuting, and c) the person does not make private use of it otherwise than in such circumstances; no liability to income tax arises by virtue of Chapter 6 or 10 or Part 3 (taxable benefits: cars, vans etc and residual liability to charge) in respect of the benefit.".

Nodyn 2: O dan Bolisi Pecyn Adleoli I Brif Swyddogion, mae gan Brif Swyddogion sy'n adleoli eu prif gartref i ardal yr heddlu yr hawl i gael eu treuliau adleoli wedi'u had-dalu. Mae hyn yn unol ag Argymhelliad 37 Winsor sy'n nodi'r canlynol am Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu "[they] should be required to pay all reasonable costs arising from the sale and purchase of a chief officer's house and should pay all tax liabilities arising from any relocation packages, so that, for the chief officer concerned, there is no personal financial disadvantage."

Nodyn 3: Penodwyd y Prif Gwnstabl ar 18/12/16. Y cyflog ar gyfer y swydd hon yn 2016/17 ar sail blwyddyn oedd £135,324.

Nodyn 4: Ymddeolodd y Prif Gwnstabl ar 17/12/16. Y cyflog ar gyfer y swydd hon yn 2016/17 ar sail blwyddyn oedd £125,853.

Nodyn 5: Penodwyd y Dirprwy Brif Gwnstabl ar 26/02/17. Y cyflog ar gyfer y swydd hon yn 2016/17 ar sail blwyddyn oedd £113,295.

Nodyn 6: Ymddeolodd y Dirprwy Brif Gwnstabl o'r swydd wedi'i secondio hon ar 23/10/16. Y cyflog ar gyfer y swydd hon ar sail blwyddyn oedd £113,292. Ailgodwyd tâl am gost y cyflog ar sail 1/3 Dyfed-Powys, 1/3 Gwent a 1/3 De Cymru ar gyfer 2016/17

Nodyn 7: Cafodd y Dirprwy Brif Gwnstabl ei secondio i rôl "Dirprwy Brif Gwnstabl - Cymru Gyfan" o 08/11/15 ymlaen. Nid oedd unrhyw newid mewn cydnabyddiaeth o ganlyniad i'r

Nodyn 8: Cafodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ei ddyrchafu dros dro i rôl Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro rhwng 08/11/15 a 25/02/17. Y cyflog ar gyfer y swydd hon yn 2016/17 ar sail blwyddyn oedd £113,295.

Nodyn 9: Cafodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ei secondio i Lywodraeth Cymru fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol - Cymru Gyfan o 01/10/2017. Nid oedd unrhyw newid mewn cydnabyddiaeth o ganlyniad. Ailgodwyd 50% o'i chostau ar Lywodraeth Cymru.

Nodyn 10: Dychwelodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol i'r rheng hon o 26/02/2017 ar ôl i'w dyrchafiad dros dro yn Ddirprwy Brif Gwnstabl ddod i ben (gweler nodyn 4). Y cyflog ar gyfer y swydd hon yn 2016/17 ar sail blwyddyn oedd £110,148.

Nodyn 11: Cafodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro ei dyrchafu'n Ddirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent ar sail secondiad rhwng 24/07/17 a 06/12/2017, ac yna cafodd ei throsglwyddo'n ffurfiol i gyflogaeth Heddlu Gwent. Ailgodwyd ei chostau ar secondiad yn llawn ar Heddlu Gwent.

Nodyn 12: Roedd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro yn ei swydd tan 23/07/17 (gweler nodyn 11). Y cyflog blynyddol ar gyfer y swydd hon oedd £104,889.

Nodyn 13: Penodwyd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B) ar 5/11/2017. Y cyflog blynyddol ar gyfer y swydd hon oedd £98,538.

Nodyn 14: Ymddeolodd y Cyfarwyddwr Adnoddau yn gynnar ar 27/10/2017 a chafodd daliad yn lle rhybudd diswyddo fel rhan o'i becyn ymadael. Y cyflog blynyddol ar gyfer y swydd hon yn 2017/18 oedd £70,192. Penderfynodd y Prif Gwnstabl ddileu'r swydd hon o'r strwythur.

Nodyn 15: Gadawodd y Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth y sefydliad ar 03/03/17. Y cyflog ar gyfer y swydd hon yn 2016/17 ar sail blwyddyn oedd £70,192.

Nodyn 16: Yn ogystal â'r uchod, cyflogir Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan gan Heddlu De Cymru a dangosir cyfanswm ei gostau cydnabyddiaeth yn Nodyn Cydnabyddiaeth Datganiad o Gyfrifon Heddlu De Cymru. Mae pob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru yn cyfrannu at gyfanswm cost cydnabyddiaeth Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan. Yn 2017-18, y cyfraniad a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys oedd £61,422.

Cyflogeion eraill (heb gynnwys uwch swyddogion – y nodir eu manylion uchod)

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill y Prif Gwnstabl a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| Nifer y cyflogeion | | Nifer y cyflogeion* |
| 6 | £60,000 - £64,999* | 10 |
| 3 | £65,000 - £69,999 | 2 |
| 2 | £70,000 - £74,999* | 4 |
| 3 | £75,000 - £79,999 | 1 |
| 3 | £80,000 - £84,999 | 5 |
| 0 | £85,000 - £89,999 | 1 |
| 2 | £90,000 - £94,999 | 0 |
| 1 | £95,000 - £99,999 | 0 |

Cymhareb Cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl

Mae'r diwygiad i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn 2014 wedi ychwanegu gofyniad newydd i nodi gwybodaeth ganlynol am gymhareb y gydnabyddiaeth. Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog sylfaenol, goramser, lwfansau a buddiannau mewn da:

a. cydnabyddiaeth Prif Gwnstabl y corff yn ystod y flwyddyn y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi
b. cydnabyddiaeth gyfatebol amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y corff a oedd mewn swydd ar 31 Mawrth 2018;
c. y gymhareb rhwng y swm yn is-baragraff (a) a'r swm yn is-baragraff (b);

Cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl ar gyfer 2017/18 oedd £139,487 (ni chafodd y Prif Gwnstabl unrhyw fuddiannau mewn da yn 2017/18, cyfeiriwch at nodyn 1 o dabl Cydnabyddiaeth Swyddogion uchod).

Cydnabyddiaeth gyfatebol amser llawn ganolrifol holl gyflogeion y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2018 oedd £35,451.

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl a chydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion y Prif Gwnstabl oedd 3.93:1 (3.83:1 yn 2016/17).

Pecynnau Ymadael

Gadawodd un aelod o staff y sefydliad yn ystod 2017/18.

Nodir nifer y pecynnau ymadael fesul band, ynghyd â chyfanswm cost ymadawiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2017/18 a 2016/17 yn y tabl isod:

| Band cost pecyn ymadael | 2016/17 Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt ym mhob band | 2016/17 Cost yr ymadawiad (gan gynnwys cyflog yn lle rhybudd) £'000 | 2017/18 Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt ym mhob band | 2017/18 Cost yr ymadawiad (gan gynnwys cyflog yn lle rhybudd) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| £0 - £20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £20,001 - £40,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £40,001 - £60,000 | 0 | 0 | 1 | 47 |
| £60,001 - £80,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £80,001 - £100,000 | 1 | 95 | 0 | 0 |
| £100,001 - £150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £150,000 + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **1** | **95** | **1** | **47** |

Ymddeol Hyblyg

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi mabwysiadu'r polisi hwn ac yn ystod y flwyddyn gwnaeth tri aelod o staff yr heddlu ddewis yr opsiwn. Oherwydd yr ymddeoliadau hyblyg hyn, mae pwysau actiwaraidd wedi cael ei gymhwyso at y Cynllun Llywodraeth Leol a arweiniodd at gost o £16k i Heddlu Dyfed-Powys.

Aelodau'r Pwyllgor Archwilio

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi penodi Cyd-bwyllgor Archwilio i roi ffynhonnell ychwanegol o sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bod systemau rheolaeth fewnol yn gweithio'n effeithiol a bod archwilwyr mewnol yn gweithredu yn unol â'u Cod Ymarfer. Mae'r taliadau a wneir i'r aelodau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

Mae'r Cynllun Llywodraethu yn nodi y dylai treuliau aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio gael eu rhannu'n gyfartal rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Yn 2017/18, nid yw 50% o gost lwfansau a threuliau yn berthnasol ac ni chyfrifwyd amdano yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl.

## 16. Costau archwilio allanol

Mae'r Prif Gwnstabl wedi mynd i'r costau canlynol mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, ardystio hawliadau grant ac arolygiadau statudol a gwasanaethau a ddarparwyd gan archwilwyr allanol y Prif Gwnstabl nad ydynt yn rhai archwilio:

| 2016/17 £'000 | | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| 39 | Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran gwasanaethau archwilio allanol a ddarparwyd o dan y *Cod Ymarfer Archwilio* a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. | 39 |
| 0 | Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag arolygiadau statudol | 0 |
| 0 | Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am ardystio hawliadau grant a ffurflenni ar gyfer y flwyddyn | 0 |
| **39** | **Cyfanswm** | **39** |

## 17. Partïon cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu trafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig, h.y. cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Prif Gwnstabl neu'r potensial i'r Prif Gwnstabl eu rheoli neu ddylanwadu arnynt. Drwy ddatgelu'r trafodion

hyn gall darllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Prif Gwnstabl fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n ddirwystr â'r Prif Gwnstabl.

Llywodraeth Ganolog

Mae gan lywodraeth ganolog ddylanwad sylweddol dros weithrediadau cyffredinol y Prif Gwnstabl; mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Prif Gwnstabl yn gweithredu ynddo ac mae'n rhagnodi telerau llawer o'r trafodion rhwng y Prif Gwnstabl a phartïon eraill.

Mae gan y Prif Gwnstabl gydberthnasau busnes â Chyrff Llywodraeth Ganolog, sydd wedi arwain at drafodion incwm a gwariant fel a ganlyn:

| 2016/17 | | | 2017/18 | |
|---|---|---|---|---|
| Incwm | Gwariant | | Incwm | Gwariant |
| £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| 0 | 994 | Y Swyddfa Gartref | 0 | 602 |
| 0 | 5 | Llywodraeth Cymru | 0 | 3 |

Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn rhoi ffynhonnell ychwanegol o sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bod systemau rheolaeth fewnol yn gweithio'n effeithiol a bod archwilwyr mewnol yn gweithredu yn unol â'u Cod Ymarfer.

Nid oes unrhyw un o aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio, na phartïon sy'n gysylltiedig â hwy, wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â'r Prif Gwnstabl yn 2017/18.

Uwch Swyddogion

Nid oedd unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Prif Gwnstabl ac Uwch Swyddogion, na phartïon sy'n gysylltiedig â hwy yn 2017/18.

Cyrff Cyhoeddus Eraill (o dan reolaeth gyffredin llywodraeth ganolog)

Mae gan y Prif Gwnstabl gydberthnasau busnes â Chyrff Praeseptio, sydd wedi arwain at drafodion incwm a gwariant fel a ganlyn:

| 2016/17 | | | 2017/18 | |
|---|---|---|---|---|
| Incwm | Gwariant | | Incwm | Gwariant |
| £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| 0 | 4,808 | Cyngor Sir Gâr | 0 | 304 |
| 0 | 149 | Cyngor Sir Ceredigion | 0 | 0 |
| 0 | 283 | Cyngor Sir Penfro | 0 | 35 |
| 0 | 155 | Cyngor Sir Powys | 0 | 9 |

Bu gostyngiad sylweddol rhwng 2016/17 a 2017/18 o ganlyniad i drosglwyddo'r swyddogaeth Ystadau o'r Prif Gwnstabl i'r Comisiynydd.

Endidau y mae'r Prif Gwnstabl yn eu Rheoli neu'n Dylanwadu'n Sylweddol arnynt

Nid oes unrhyw endidau y mae'r Prif Gwnstabl yn eu rheoli neu'n dylanwadu'n sylweddol arnynt.

## 18. Prydlesau

**Prif Gwnstabl fel Prydlesai**

Prydlesau Cyllid

Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw Brydlesau Cyllid

Prydlesau Gweithredu

Mae Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yn prydlesu eiddo o berchenogion eiddo eraill lle y bo'n briodol ac yn fforddiadwy, er mwyn darparu swyddfeydd addas ar gyfer plismona gweithredol a chymorth. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys brydlesau gweithredu hefyd ar gyfer offer a chyfarpar sy'n cynnwys llungopiwyr.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| 31 Mawrth 2017 | | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 175 | Dim hwyrach na blwyddyn | 90 |
| 485 | Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 357 |
| 884 | Yn hwyrach na phum mlynedd | 838 |
| **1,544** | **Cyfanswm** | **1,285** |

Y gwariant a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesau hyn oedd:

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 217 | Isafswm taliadau prydles | 168 |
| 0 | Rhenti dibynnol | 0 |
| 0 | (Taliadau isbrydles sy'n dderbyniadwy) | 0 |
| **217** | **Cyfanswm** | **168** |

**Prif Gwnstabl fel Prydleswr**

Prydlesau Cyllid

Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw brydlesu cyllid.

Prydlesau Gweithredu

Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw brydlesau gweithredu.

## 19. Buddiannau terfynu

Terfynodd Heddlu Dyfed-Powys gontract un cyflogai yn ystod 2017/18, gan fynd i gostau o £47k. Roedd hyn yn daladwy i'r Cyfarwyddwr Adnoddau, ar ffurf taliad yn lle rhybudd gwerth £16k a buddiannau pensiwn ychwanegol gwerth £31k, fel y'i datgelwyd yn Nodyn 15.

## 20. Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Prif Gwnstabl yn gwneud cyfraniad tuag at gost buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bod cyflogeion yn ymddeol, mae gan y Prif Gwnstabl ymrwymiad i wneud y taliadau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae cyflogeion yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin – cynllun CARE (Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd) buddiannau diffiniedig a ariannwyd ydyw, sy'n golygu bod y Prif Gwnstabl a chyflogeion yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn â'r asedau buddsoddi. Dylid nodi bod pob aelod o staff yn cael ei gyflogi gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ond mae'r rhan fwyaf o'r staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl. Mae costau wedi'u dosrannu i adlewyrchu hyn.
- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu – cynllun CARE (Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd) buddiannau diffiniedig nas ariannwyd ydyw, ac o ganlyniad nid oes gan y gronfa unrhyw asedau buddsoddi. Caiff buddiannau sy'n daladwy eu hariannu gan gyfraniadau gan gyflogwyr a chyflogeion a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng buddiannau sy'n daladwy a chyfraniadau sy'n dderbyniadwy drwy grant ychwanegol gan y Swyddfa Gartref drwy law'r Comisiynydd.

Trafodion sy'n ymwneud â Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan gyflogeion, yn hytrach na phan delir y buddiannau ar ffurf pensiynau yn y pen draw.

Caiff y costau hyn eu gwrthdroi o gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddal unrhyw gronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn ar y dudalen nesaf fel trosglwyddiad o fewn y grŵp:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| *Cost gwasanaethau:* | | | | |
| • Cost gwasanaeth cyfredol | (4,139) | (6,745) | (16,484) | (28,048) |
| • Cost gwasanaeth a roddwyd | 0 | (47) | 0 | 0 |
| • Arall | (120) | (130) | 0 | 0 |
| *Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:* | | | | |
| • Cost llog net | (969) | (938) | (34,944) | (32,736) |
| **Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Warged neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau** | **(5,228)** | **(7,860)** | **(51,428)** | **(60,784)** |
| *Buddiant Ôl-gyflogaeth arall a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:* | | | | |
| Ailfesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net sy'n cynnwys: | | | | |
| • Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net) | 19,987 | 1,241 | 0 | 0 |
| • (Ennill)/colli profiad | 6,603 | 0 | 0 | 53,017 |
| • Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 1,743 | 7,669 | 0 | 50,973 |
| • Ailfesur enillion a cholledion sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (35,919) | 0 | (263,838) | 54,186 |
| **Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a Godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(12,814)** | **1,050** | **(315,266)** | **97,392** |
| **Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn y grŵp)** | 12,814 | (1,050) | 315,266 | (97,392) |
| **Cyfanswm y gost net** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:* | | | | |
| • Gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i Warged neu Ddiffyg ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:* | | | | |
| • Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | 0 | 0 | 0 | 0 |
| • Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | 0 | 0 | 0 | 0 |

Proseswyd trosglwyddiad o fewn y grŵp i gyfrifon y Prif Gwnstabl, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am reoli cronfeydd wrth gefn.

**Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a gydnabuwyd yn y Fantolen**

Y Prif Gwnstabl sy'n mynd i'r rhan fwyaf o gostau cyflogaeth, felly mae asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth yn aros yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl.

Y rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | (159,043) | (161,629) | (1,273,413) | (1,147,093) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 119,772 | 126,534 | 0 | 0 |
| **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig** | **(39,271)** | **(35,095)** | **(1,273,413)** | **(1,147,093)** |

Cyfanswm y rhwymedigaeth a gofnodwyd yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl yw £1,182,591 miliwn. Oherwydd lefelau perthnasedd, nid oes rhaniad ar gael rhwng cyfrifon y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, felly mae'r ffigur a nodir uchod ar gyfer y Grŵp.

Cysoni'r symudiadau yng Ngwerth teg Asedau'r Cynllun

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun** | **94,376** | **119,772** | **0** | **0** |
| Llog incwm | 3,435 | 3,147 | 0 | 0 |
| Ailfesur ennill / (colled) | | | | |
| • Enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net | 19,987 | 1,241 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 2,749 | 3,070 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau gan gyflogeion i'r cynllun | 1,298 | 1,408 | 0 | 0 |
| Buddiannau a dalwyd | (1,953) | (1,974) | 0 | 0 |
| Arall (os yw'n gymwys) | (120) | (130) | 0 | 0 |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau** | **119,772** | **126,534** | **0** | **0** |

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig):

| | Rhwymedigaethau a Ariannwyd: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Rhwymedigaethau nas Ariannwyd: Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill:** | **(123,284)** | **(159,043)** | **(982,911)** | **(1,273,413)** |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (4,236) | (7,050) | (16,484) | (28,048) |
| Cost llog | (4,427) | (4,127) | (34,944) | (32,736) |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (1,298) | (1,408) | (5,771) | (5,854) |
| *Enillion a (cholledion) actiwaraidd* | | | | |
| • Enillion / colledion actiwaraidd sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 1,743 | 0 | 0 | 53,017 |
| • Enillion / colledion actiwaraidd sy'n codi yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (36,097) | 8,072 | (263,838) | 50,973 |
| • Arall (os yw'n gymwys) | 6,603 | 0 | 0 | 54,186 |
| Cost gwasanaeth a roddwyd | 0 | (5) | 0 | 0 |
| Colledion / (enillion) ar gwtogi (lle y bo'n berthnasol) | 0 | (42) | 0 | 0 |
| Buddiannau a Dalwyd | 1,953 | 1,974 | 30,535 | 34,782 |
| **Balansau wrth gau ar 31 Mawrth** | **(159,043)** | **(161,629)** | **(1,273,413)** | **(1,147,093)** |

Roedd asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

| | Gwerth teg asedau'r Cynllun | |
|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 |
| | £'000 | £'000 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 959 | 760 |
| Offerynnau ecwiti | 84,438 | 89,333 |
| Bondiau | 23,236 | 24,547 |
| Eiddo | 11,139 | 11,894 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | **119,772** | **126,534** |

## Sail dros amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati.

Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu wedi cael eu hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting, sef cwmni annibynnol o actiwariaid, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2017.

## Y rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw:

| | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | Cynllun Pensiwn yr Heddlu | |
|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 |
| **Rhagdybiaethau ynglŷn â marwolaethau:** | | | | |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr presennol: | | | | |
| • Dynion | 22.8 | 22.9 | 27.8 | 26.4 |
| • Menywod | 25.5 | 25.6 | 30.3 | 28.4 |
| Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr yn y dyfodol: | | | | |
| • Dynion | 25.0 | 25.1 | 30.1 | 28.3 |
| • Menywod | 27.8 | 27.9 | 32.6 | 30.3 |
| **Rhagdybiaethau eraill:** | | | | |
| Cyfradd chwyddiant | 2.3% | 2.1% | 2.3% | 2.1% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.8% | 3.6% | 3.8% | 3.5% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau | 2.3% | 2.2% | 2.3% | 2.2% |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun | 2.6% | 2.7% | 2.6% | 2.7% |

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod wedi'u pennu yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol yn y rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac sy'n tybio ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid ond bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gydgysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Ni newidiodd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| Cynllun yr Heddlu Llywodraeth Leol 2017/18 | Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun | |
|---|---|---|
| | Cynnydd yn y rhagdybiaeth | Lleihad yn y rhagdybiaeth |
| | £'000 | £'000 |
| Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn) | 3,064 | 0 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 3,588 | 0 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu leihad o 0.1%) | 805 | 0 |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu leihad o 0.1%) | 0 | 3,511 |
| **Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2017/18** | **Effaith ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn y cynllun** | |
| | Cynnydd yn y rhagdybiaeth | Lleihad yn y rhagdybiaeth |
| | £'000 | £'000 |
| Hirhoedledd (cynnydd neu leihad o flwyddyn) | 29,336 | 0 |
| Cyfradd chwyddiant (cynnydd neu leihad o 0.1%) | 23,240 | 0 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu leihad o 0.1%) | 4,490 | 0 |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu leihad o 0.1%) | 0 | 22,703 |

**Effaith ar lifau arian parod y Grŵp**

Amcan y cynllun yw sicrhau bod cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Grŵp wedi cytuno ar strategaeth ag actiwari'r cynllun er mwyn cyflawni lefel ariannu o 100% dros y tair blynedd nesaf. Cwblhawyd y prisiad tair blynedd ar 31 Mawrth 2017 a dangosir manylion cyfraddau cyflogwyr yn y dyfodol isod:

| Blwyddyn | Cyfradd y cyflogwr |
|---|---|
| 2017/18 | 13.5% |
| 2018/19 | 13.5% |
| 2019/20 | 13.5% |

## 21. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu - Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd

Cyfeiriwch at 'Nodyn 4 – Barnau Allweddol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu' am ragor o wybodaeth. Aseswyd nad oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw rwymedigaeth ar ddyddiad y Fantolen ac am y rhesymau hyn, ni wnaed unrhyw ddarparlaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2017/18.

Hawliadau posibl ar gyfer gordalu cyfraniadau pensiwn

Mae gan Swyddogion yr Heddlu sydd wedi cronni 30 blynedd o wasanaeth yr hawl i ymddieithrio o'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i swyddogion sy'n aelodau o gynllun pensiwn 1987 y mae hyn yn gymwys. Mae'n bosibl y gall rhai swyddogion hawlio eu bod wedi gordalu cyfraniadau pensiwn ac fel y cyfryw, y gall fod ganddynt yr hawl i wneud hawliad. Nid oes unrhyw hawliadau wedi'u cyflwyno hyd yma a byddai'n anodd rhoi amcangyfrif dibynadwy ar gyfer costau o'r fath ar hyn o bryd. Rydym wedi amcangyfrif y byddai hyn yn effeithio ar uchafswm o saith swyddog Heddlu Dyfed-Powys.

Ymchwiliad i Blismona Cudd

Ar 12 Mawrth 2015 sefydlodd yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd ymchwiliad i blismona cudd o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005. Diben yr ymchwiliad hwn yw ymchwilio i ymgyrchoedd cudd a gynhaliwyd gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ers 1968 a chyflwyno adroddiad arno. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried y cyfraniad y mae plismona cudd wedi'i wneud i fynd i'r afael â throseddu, sut roedd/mae yn cael ei oruchwylio a'i reoleiddio, a'i effaith ar yr unigolion dan sylw – swyddogion yr heddlu ac eraill a ddaeth i gysylltiad â hwy.

Mae gwaith yr Ymchwiliad yn rhychwantu pob math o blismona cudd a bydd yn ystyried gwaith yr Uned Wrthdystio Arbennig, yr Uned Cudd-wybodaeth Trefn Gyhoeddus Genedlaethol a heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried a yw pobl o bosibl wedi cael eu collfarnu ar gam mewn achosion a oedd yn cynnwys swyddogion cudd yr heddlu, ac yn cyfeirio unrhyw achosion o'r fath at banel ar wahân i'w hystyried.

Mae ateboirwydd bellach wedi'i sefydlu a, gyda 11 o heddluoedd eraill, mae cyfreithwyr allanol wedi'u penodi i gynrychioli swyddog(ion) cyfredol. Cytunwyd y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn talu 5% o gostau paratoi cyffredinol y cwmni cyfreithiol. Ymdriniwyd ag unrhyw faterion cyfreithiol eraill yn ymwneud â Heddlu Dyfed-Powys yn fewnol.

Ar hyn o bryd, mae gwaith yr ymchwiliad ar gam rhy gynnar eto i ragweld yn gywir gostau pellach, felly ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2017/18.

Hawliadau Lwfans Ar Alw Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig
Mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill, yn wynebu hawliadau "Lwfans ar alw" o dan Reoliad 34 o Atodiad U i Reoliadau'r Heddlu 2003. Mae'r hawlwyr yn swyddogion yr heddlu cyfredol a / neu wedi ymddeol ac yn aelodau o "Uned Ymdrin Ffynhonnell Benodedig (Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol)". Dywed yr hawlwyr fod eu rolau yn gofyn iddynt ateb ffonau symudol a delio â'r sawl sydd am roi cudd-wybodaeth i'r heddlu. Hefyd, dywedant iddynt oruchwylio ymdrinwyr ffynonellau a bod y tasgau hyn wedi gofyn iddynt fonitro eu ffonau bob dydd.

Ar y cam hwn, ni phennwyd atebolrwydd ac felly ni fyddai'n briodol gwneud unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2017/18. Hefyd ni ellir darparu amcangyfrif rhesymol o atebolrwydd ar y cam hwn.

## 22. Natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol

Risg Credyd

***Symiau Masnach Derbyniadwy***

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi amlygiad posibl mwyaf y Prif Gwnstabl i risg credyd, yn seiliedig ar y profiad a gafwyd dros y pum blwyddyn ariannol ddiwethaf ar lefel diffyg talu ymhlith dyledwyr masnach, wedi'i addasu ar gyfer amodau presennol y farchnad. Yn unol â gofynion y Cod Ymarfer, dim ond manylion dyledwyr sydd wedi codi o ganlyniad i weithgareddau masnachu mae'r datgeliad isod yn eu cynnwys. Nid yw balansau na thrafodion sy'n deillio o swyddogaethau statudol (h.y. treth a thaliadau ardrethi annomestig cenedlaethol) wedi'u cynnwys yn y nodyn datgelu hwn, gan nad ydynt wedi codi o ganlyniad i weithgareddau masnachu cytundebol.

Cyfrifir Darpariaeth Drwg-ddyledion ar lefel Grŵp gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn dal darpariaethau. Felly er gwybodaeth yn unig y rhoddir y ffigurau hyn.

| Dyledwyr Gros y Grŵp £'000 | Darpariaeth Drwg-ddyledion ar gyfer y Grŵp 2017/18 £'000 | Darpariaeth Drwg-ddyledion ar gyfer 2017/18 fel % o Ddyledwyr Masnach y Grŵp |
|---|---|---|
| 1,596 | 38 | 2.38 |

## Rhestr Termau

| Term | Diffiniad |
| --- | --- |
| 2016/17 | Cyfeiria at y cyfnod y mae a wnelo'r cyfrifon hyn ag ef at ddibenion cymharu – 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017. |
| 2017/18 | Cyfeiria at y cyfnod y mae a wnelo'r cyfrifon hyn ag ef – 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018. |
| Ailbrisio asedau | Ailbrisio asedau sefydlog yw techneg sydd ei hangen i gofnodi gwerth gwirioneddol asedau cyfalaf a ddelir yn y fantolen yn gywir. Diben ailbrisiad yw cynnwys gwerth teg asedau anghyfredol ar y farchnad yn y cyfrifon. |
| Amorteiddio | Dylai asedau anniriaethol gael eu hamorteiddio ar sail systematig dros eu hoes economaidd. |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | Yr ardrethi annomestig, neu'r ardrethi busnes, a gesglir gan gynghorau lleol yw'r ffordd y mae busnesau ac eraill sy'n meddiannu eiddo annomestig yn cyfrannu tuag at gost gwasanaethau lleol. Caiff yr ardrethi eu cyfuno gan lywodraeth ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau lleol a'r Comisiynydd yn unol â fformiwla. |
| Ased Ariannol | Hawl i fuddiannau economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Comisiynydd sydd ar ffurf arian parod neu offerynnau eraill neu hawl gytundebol i gael arian parod neu ased ariannol arall. |
| Asedau anghyfredol | Eitemau megis tir, adeiladau, cerbydau a phrif eitemau o gyfarpar, sy'n rhoi budd dros fwy na blwyddyn. |
| Asedau cyfredol | Mae asedau cyfredol yn eitemau y gellir eu troi'n arian parod yn hawdd.<br>Drwy gonfensiwn caiff yr eitemau eu trefnu drwy gyfeirio at ba mor hawdd y gallant gael eu troi'n arian parod. |
| Benthyca darbodus | Benthyca gan awdurdodau lleol heb gymorth ariannol y llywodraeth, ond yn unol â chod benthyca awdurdodau lleol darbodus CIPFA. |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | Sefydliad a ariennir gan y Llywodraeth. Mae'n rhoi benthyg arian i Gomisiynwyr ar amodau penodol fel y gallant brynu eitemau cyfalaf. |
| CIPFA | Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, un o'r cyrff cyfrifyddiaeth proffesiynol yn y DU. Mae CIPFA yn arbenigo yn y gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n gyfrifol am bennu safonau cyfrifyddu ar gyfer y gwasanaethau hyn. |
| Comisiynu | Y cylch cyfan o asesu anghenion y bobl mewn ardal leol, dylunio gwasanaethau ac yna'u sicrhau. |
| Corfforaeth undyn | Corfforaeth undyn yw endid cyfreithiol sy'n cynnwys un swydd gorfforedig ("undyn") a ddelir gan un dyn neu fenyw h.y. mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gorfforaethau undyn o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. |
| Cost gwasanaeth a roddwyd | Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun sy'n ymwneud â gwasanaeth cyflogai mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi yn y cyfnod cyfredol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeol. |
| Cost gwasanaeth cyfredol (Pensiynau) | Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaeth cynllun buddiannau diffiniedig a ddisgwylir o wasanaeth cyflogeion yn y cyfnod cyfredol. |
| Cost Llog Net (Pensiynau) | Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, mae hyn yn digwydd yn ystod y cyfnod pan fydd y rhwymedigaeth (ased) buddiannau diffiniedig net yn codi o dreigl amser. |
| Cronfeydd Wrth Gefn | Balansau sy'n cynrychioli adnoddau a neilltuir at ddibenion megis hapddigwyddiadau cyffredinol a rheoli llifau arian parod. Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yw'r rhai a neilltuir at ddibenion polisi penodol. |

| Term | Diffiniad |
| --- | --- |
| Cwtogiad | Newidiadau mewn rhwymedigaethau sy'n ymwneud â chamau gweithredu sy'n rhyddhau'r cyflogwr o'r prif gyfrifoldeb am rwymedigaeth pensiwn (e.e. mae grŵp o gyflogeion yn cael eu trosglwyddo i gynllun arall) neu ddigwyddiadau sy'n lleihau blynyddoedd disgwyliedig gwasanaeth cyflogeion yn y dyfodol neu leihau faint o fuddiannau diffiniedig a gronnir dros eu gwasanaeth yn y dyfodol i rai cyflogeion (e.e. cau uned fusnes). |
| Cyfrifon un endid | Cyfrifon unigol pob corfforaeth undyn. |
| Cyfrifon y grŵp | Datganiadau ariannol y grŵp h.y. y ddwy gorfforaeth undyn, a gyflwynir fel un endid economaidd. |
| Cyfrifyddu cydrannau | Cyfrifyddu am gydrannau unigol asedau anghyfredol ar wahân. |
| Cyfrifyddu uno | Dylid cymhwyso cyfrifyddu uno pan fydd swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo'n llawn o gyfrifoldeb un awdurdod i'r llall. Lle mae cyfrifyddu uno yn gymwys rhagdybir i'r uno ddigwydd ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu. |
| Cyllideb Refeniw | Yr amcangyfrif o ofynion incwm a gwariant blynyddol, sy'n nodi goblygiadau ariannol polisïau a'r sail dros y praesept blynyddol i'w godi wrth gasglu arian. |
| Cynllun buddiannau diffiniedig | Cynllun pensiwn neu gynllun buddiannau ymddeol arall heblaw cynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel arfer, mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddiannau yn annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nid yw'r buddiannau yn ymwneud yn uniongyrchol â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynlluniau fod yn rhai a ariannwyd neu nas ariannwyd. |
| Darpariaethau | Darpariaeth yw rhwymedigaeth o amseriad neu swm ansicr. Cydnabyddir darpariaeth os yw'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni:<br>• mae gan endid rwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;<br>• mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo adnoddau sy'n ymgorffori buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;<br>• gellir llunio amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. |
| Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol | Deddf Senedd y Deyrnas Unedig a drosglwyddodd y rheolaeth dros heddluoedd o awdurdodau'r heddlu i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu etholedig. |
| Derbyniadau cyfalaf | Incwm o werthu asedau anghyfredol, y gellir ond eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu ad-dalu dyled sy'n weddill ar asedau a ariennir o fenthyciadau.<br>Derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio yw'r derbyniadau cyfalaf hynny nas neilltuwyd at ddibenion penodol ond sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer pryniannau cyfalaf. |
| Dibrisiant | Mesur cost neu swm wedi'i ailbrisio buddiannau'r ased anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod. Mae defnydd yn cynnwys treulio ased anghyfredol, ei ddefnyddio neu leihad yn ei oes ddefnyddiol p'un a yw hynny'n codi o ddefnydd, am fod amser wedi mynd heibio neu anarferiant drwy newidiadau mewn technoleg neu'r galw am y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchwyd gan yr ased. |
| Dirprwyaeth | Partneriaeth awdurdod a chyfrifoldeb i berson arall gyflawni gweithgareddau penodol. Mae'r person a ddirprwyodd y gwaith yn parhau'n gyfrifol am ganlyniad y gwaith a ddirprwywyd. |
| Enillion a cholledion actiwaraidd | Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn diffygion neu wargedion actiwaraidd sy'n codi oherwydd:<br>• nid yw digwyddiadau yn unol â'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wnaed yn y prisiad diwethaf; neu<br>• Mae'r tybiaethau actiwaraidd wedi newid. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw | Grant cyffredinol gan y llywodraeth i gefnogi gwariant awdurdodau lleol (gan gynnwys Comisiynwyr) sy'n cael ei bennu bob blwyddyn mewn perthynas â lefelau gwariant. |
| FRS | Safonau Adrodd Ariannol, fel y cytunir arnynt gan broffesiwn cyfrifyddu'r DU a'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiadau o Arfer Cyfrifyddu Safonol. |
| Gwariant cyfalaf | Gwariant ar gaffael neu adeiladu asedau, sydd â gwerth hirdymor e.e. tir ac adeiladau. |
| Gwerth cario | Gwerth cario ased yw gwerth yr ased sydd wedi'i gynnwys yn y Fantolen. |
| Gwerth llyfr net | Y swm y mae asedau anghyfredol wedi'u cynnwys yn y fantolen h.y. eu cost hanesyddol neu eu gwerth cyfredol llai'r symiau cronnus a ddarperir ar gyfer dibrisiant. |
| Gwerth teg | Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodyn hyd braich, llai, lle y bo'n gymwys, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu'r ased. |
| Lleihad mewn gwerth | Lleihad yng ngwerth ased anghyfredol, islaw ei swm cario yn y fantolen. |
| Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) | Mesur swyddogol o lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu nwyddau a gwasanaethau – nid yw'n cynnwys taliadau llog morgais, y dreth gyngor na chostau tai eraill. |
| Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM) | Mesur swyddogol o lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu basgedaid o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys taliadau morgais, y dreth gyngor a chostau cartref eraill. |
| Offeryn ariannol | Unrhyw gontract sy'n rhoi ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall.<br>Offeryn ariannol deilliannol yw contract ariannol y mae ei werth yn deillio o newidiadau mewn asedau neu fynegeion sylfaenol. |
| Polisïau cyfrifyddu | Set o reolau a chodau ymarfer yw'r rhain, a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon. |
| Prydles cyllid | Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a buddiannau perchenogaeth o ased anghyfredol i'r prydlesai. Gellir rhagdybio bod risgiau a buddiannau yn cael eu trosglwyddo yn y fath fodd os yw gwerth presennol yr isafswm taliadau prydles, gan gynnwys unrhyw daliad cychwynnol, ar ddechau'r brydles, dipyn yn fwy na gwerth teg yr ased a brydleswyd. |
| Rhwymedigaeth Ariannol | Rhwymedigaeth i drosglwyddo buddiannau economaidd a reolir gan y Comisiynydd a all fod ar ffurf rhwymedigaeth gytundebol i roi arian parod neu asedau ariannol, neu rwymedigaeth i gyfnewid asedau a rhwymedigaethau ariannol ag endid arall sy'n anffafriol o bosibl i'r Comisiynydd. |
| Rhwymedigaethau cyfredol | Rhwymedigaethau cyfredol yw eitemau sy'n ddyledus ar unwaith neu yn y byrdymor. |
| Rhwymedigaethau digwyddiadol | Mae'r rhain yn bodoli lle:<br>• mae rhwymedigaeth bosibl yn codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac mai dim ond os bydd un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad yw/ydynt o dan reolaeth lwyr y sefydliad yn digwydd y caiff ei bodolaeth ei chadarnhau; neu<br>• mae rhwymedigaeth gyfredol yn codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ond nid yw'n cael ei chydnabod oherwydd:<br>i. nid yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth i drosglwyddo, neu<br>ii. ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Uwch Gyflogai | Cyflogai y mae ei gyflog/chyflog yn fwy na £150,000 y flwyddyn, neu un y mae ei gyflog/chyflog yn £60,000 y flwyddyn o leiaf (wedi'i gyfrifo ar sail pro rata i gyflogai rhan amser) ac sy'n bennaeth dynodedig gwasanaeth taledig ac yn brif swyddog statudol. Fel arfer, Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion statudol y Comisiynydd. |